# Adroddiad Perfformiad
# Cyngor Gwynedd 2011/12

## Cynnwys


| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|
| Rhagair Arweinydd y Cyngor | 3 |
| Rhagair y Prif Weithredwr | 4 |
| Trosolwg Perfformiad Cyngor Gwynedd | 5 |
| Cynlluniau Rhaglen Strategol y Cyngor | 11 |
| Gofal | 11 |
| Adfywio a'r Economi | 21 |
| Plant a Phobl Ifanc | 35 |
| Amgylchedd ac Isadeiledd | 44 |
| Trawsffurfio | 58 |
| Arbedion | 68 |
| Gwella Iechyd | 76 |
| Maes Iaith | 80 |
| Cynllun Datblygu Lleol | 87 |


## Atodiadau:


| | | | |
|---|---|---|---|
| Dangosyddion Allweddol | - | Atodiad A | 91 |
| Dangosyddion Statudol | - | Atodiad B | 94 |

## Rhagair Arweinydd y Cyngor

Fel llywodraeth ar bob lefel, ein bwriad fel Cyngor Gwynedd yw ceisio cyflawni ar ran y bobl rydym yn cynrychioli. Mae gennym uchelgais i wneud hynny mewn ffordd greadigol a chadarnhaol gan greu'r newidiadau angenrheidiol i greu cymunedau cynaliadwy led y sir. Nid mater hawdd yw hynny wrth gwrs, a bydd rhai methiannau yn ogystal â llwyddiannau ar hyd y daith bob amser. Ond wrth i ni geisio creu diwylliant o fenter ac arloesi ymysg ein pobl, mae'n allweddol ein bod ni yn arddel yr un diwylliant fel Cyngor. Mae angen edrych yn fanwl ar ein perfformiad yn y cyd-destun hwnnw felly a dysgu er mwyn parhau i deithio ar ein siwrne wella barhaus a hynny er mwyn sicrhau'r gorau ar gyfer pobl Gwynedd heddiw ac yfory.



Dyfed Edwards
Arweinydd Cyngor
Gwynedd

## Rhagair y Prif Weithredwr

Ar waetha'r sefyllfa gyllidol hynod heriol sy'n parhau i'n hwynebu, mae Cyngor Gwynedd yn parhau i flaenoriaethu'r materion hynny sy'n bwysig i drigolion Gwynedd.

'Rwy'n hyderus bod y Cyngor, unwaith eto eleni, wedi ymdrechu i sicrhau perfformiad safonol iawn ar draws ystod ei wasanaethau, ac i fod yn ymatebol am y perfformiad hwnnw. Mae gwir gynnydd wedi ei gyflawni, a hynny mewn awyrgylch rhyfeddol o anodd yn sgil y torri llym parhaus mewn adnoddau. Cafwyd newyddion da ddechrau Medi 2012, gyda chyhoeddi mesuryddion perfformiad Cymru gyfan, sy'n dangos fod Gwynedd yn perfformio'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol mewn 15 allan o'r 21 o feysydd allweddol yn 2011/12. Dangosodd yr adroddiad annibynnol fod Gwynedd yn perfformio'n well na'r cyfartaledd cenedlaethol mewn bron i dri chwarter o'r meysydd allweddol a aseswyd.



Harry Thomas
Prif Weithredwr
Cyngor Gwynedd

Mae'n deg nodi hefyd bod y Cyngor wedi methu â chyflawni'r holl welliannau ac mae gofyn i ni edrych eto ar y meysydd hynny er mwyn cyflawni'n uchelgais.

Ymddengys y bydd y cyni ariannol yn parhau am sawl blwyddyn i ddod. Ond gallaf eich sicrhau y bydd y Cyngor yn parhau i ymdrechu, nid yn unig i gynnal, ond i wella'n gwasanaethau i drigolion Gwynedd a hynny trwy ddulliau a gweithdrefnau newydd, dychmygus.

Unwaith eto, 'rwy'n ddiolchgar iawn i aelodau a swyddogion y Cyngor am eu hymroddiad a'u cydweithrediad i sicrhau'r perfformiad gorau posib.

---

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau er mwyn sicrhau gwelliant parhaus, a bod yn atebol amdano. Rydym yn cyfarch hyn drwy'r Cynllun Strategol a thrwy ein hadroddiad blynyddol ar berfformiad a gyflwynir yma.

Mae'r broses o fod yn atebol dros berfformiad yn digwydd mewn dau gam:

Cam 1: Yr angen i awdurdodau gyhoeddi eu cynlluniau ar gyfer gwella, gan gynnwys cyfres o amcanion gwella (ein Cynllun Strategol).

Cam 2: Yr angen i awdurdodau gyhoeddi asesiad o berfformiad yng nghyswllt eu cynlluniau a'u hamcanion gwella (Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2011/12).

Mae'r adroddiad perfformiad hwn yn adrodd ar welliannau a fydd yn trawsnewid Gwynedd, yn ogystal ag ar ansawdd ein gwasanaethau craidd.

## Trosolwg Perfformiad

Mae'r tabl hwn yn dangos llwyddiant gwelliannau sydd yn cyfrannu tuag at wella'r canlyniadau i bobl Gwynedd;

| Rhaglen Strategol | Nifer o Welliannau | Gwelliannau sydd wedi cwrdd â deilliant y flwyddyn<br>Gwyrdd | Gwelliannau sydd wedi neu wedi gwneud cynnydd derbyniol tuag at gyflawni deilliant y flwyddyn<br>Ambr | Gwelliannau nad oedd wedi cwrdd â deilliant y flwyddyn erbyn diwedd Ebrill 2011<br>Coch | Gwelliannau heb ddeilliant |
|---|---|---|---|---|---|
| Gofal | 22 | 13 | 2 | 4 | 3 |
| Adfywio a'r Economi | 28 | 24 | 3 | 0 | 1 |
| Plant a Phobl Ifanc | 14 | 8 | 2 | 2 | 2 |
| Amgylchedd ac Isadeiledd | 33 | 24 | 6 | 3 | 0 |
| Trawsffurfio | 31 | 18 | 7 | 3 | 3 |
| Arbedion | 20 | 14 | 5 | 0 | 1 |
| Prosiect Strategol – Gwella Iechyd | 5 | 3 | 0 | 2 | 0 |
| Prosiect Strategol – Maes Iaith | 20 | 17 | 1 | 1 | 1 |
| Prosiect Strategol – Cynllun Datblygu Lleol | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **175** | **123** | **26** | **15** | **11** |

## Dangosyddion Allweddol 2011/12

Mae'r tabl hwn yn dangos faint o'n dangosyddion perfformiad sydd wedi gwella, aros yr un peth, neu waethygu.

| | Nifer Dangosyddion | ↑ | ⇔ | ↓ |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 24 | 16 | 1 | 7 |

## Dangosyddion Statudol 2011/12

Mae'r tabl hwn yn dangos faint o ddangosyddion perfformiad statudol Llywodraeth Cymru sydd wedi gwella, aros yr un peth, neu waethygu yng Ngwynedd.

| | Nifer Dangosyddion | ↑ | ⇔ | ↓ |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 25 | 15 | 2 | 8 |

## Perfformiad Dangosyddion 2011/12 yn erbyn Cyfartaledd Cymru

Mae'r tabl hwn yn dangos sut mae Gwynedd yn perfformio yn erbyn gweddill Cymru.

| | ↑ | ⇔ | ↓ | - (methu cymharu) | Is-gyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 28 | 0 | 10 | 11 | 49 |

## Trosolwg Perfformiad Cyngor Gwynedd

Bu 2011/12 yn flwyddyn heriol i Wynedd wrth ganolbwyntio ar sicrhau canlyniadau i drigolion a chyflawni mwy am lai. Mae’r canlynol yn grynodeb o’r llwyddiannau yn ogystal â’r hyn na lwyddom i’w gyflawni, ac sydd angen sylw pellach.

Yn y maes **gofal** rydym wedi bod yn gweithio i sicrhau fod **pobl a phlant bregus yn derbyn cefnogaeth i fyw bywyd bodlon.**

Llwyddwyd i roi mwy o eglurder i fudd-ddeiliaid gwasanaethau ar fwriadau comisiynu'r bum mlynedd nesaf ym maes Pobl Hŷn ac Anableddau Dysgu, a gwelwyd cynnydd yn y nifer o bobl sy’n derbyn gwasanaeth galluogi a theleofal. Cynyddodd y nifer o becynnau teleofal sylfaenol a ddarperir o 870 yn 2010/11 i 1166 yn 2011/12.

Fodd bynnag, prin fu’r cynnydd yn y prosiectau cydweithio gydag Ynys Môn, a bydd angen cytuno ar gyfeiriad y prosiectau hynny yn fuan rhag rhwystro cynnydd yn y meysydd hynny ymhellach.

Yn y maes Adfywio a’r Economi, mae ein ffocws wedi bod ar **ffyniant economaidd, cyfleoedd teg o fod yn rhan o’r byd gwaith, a sefydlu’r ymdeimlad o Wynedd yn lle cyffrous i fyw.**

Llwyddodd prosiect *Gwynedd Ddigidol* i sefydlu ymwybyddiaeth o’r sir fel un flaengar, a’r sir fwyaf llwyddiannus yn y wlad o ran denu grantiau i ddileu’r *Hebfannau* digidol.

Llwyddwyd i gefnogi dros 623 o unigolion i ddod yn nes at gyflogaeth, a llwyddodd y prosiect *Yma Mae Pethau’n Digwydd* i wireddu’r buddion addawyd gan sicrhau cynnal naw digwyddiad i godi proffil y sir.

Mae cynlluniau’r Cyngor yn y maes Plant a Phobl Ifanc yn cyfrannu tuag at sicrhau **gwell profiadau a chyfleoedd teg i blant a phobl ifanc Gwynedd**. Er na lwyddwyd i sefydlu Tîm o Amgylch y Teulu i Wynedd yn ystod 2011/12, cwblhawyd gwaith cyd-gynllunio sylweddol gyda phartneriaid , a bydd y gwasanaeth a elwir ‘Gyda’n Gilydd’ yn weithredol yn ystod 2012/13.

Sefydlwyd tîm ar y cyd â Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr er mwyn darparu gwasanaeth integredig i blant a phobl ifanc anabl a gwael a’u teuluoedd.

Cwblhawyd cynlluniau peilot llwyddiannus o fewn tair Ysgol Uwchradd er mwyn lleihau'r nifer o bobl ifanc gyda phroblemau ymddygiad sy'n cael eu gwahardd, a bydd y dull yma o weithio yn cael ei ymestyn i holl Ysgolion Uwchradd y Sir o Fedi 2012 ymlaen.

Er bod y Cyngor wedi paratoi opsiynau amlinellol ar gyfer trawsnewid y ddarpariaeth i blant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol dros y blynyddoedd nesaf, ni lwyddwyd i roi cynlluniau ffisegol a chwricwlaidd mewn lle ar gyfer Ysgol Arbennig newydd i ardal Dwyfor a Meirionnydd oherwydd oedi ar ran Llywodraeth Cymru o ran gwneud penderfyniad ar gais y Cyngor am adnoddau o'r Rhaglen Ysgolion G21ain.

Ystyriwyd opsiynau ar gyfer ad-drefnu ysgolion cynradd yn nalgylch Ysgol Y Gader, Dolgellau, a phenderfynwyd cynnig cynllun a fydd yn sicrhau presenoldeb darpariaeth addysg mewn ardal wledig ar ddau safle.

Cwblhawyd gwaith cynllunio manwl ar fodel a threfn ar gyfer comisiynu addysg a hyfforddiant ôl-16 yn seiliedig ar gydweithio rhwng partneriaid yng Ngwynedd ac Ynys Môn.

Gwelwyd cynnydd yn y nifer o achrediadau sy'n cael eu hennill gan bobl ifanc y sir drwy waith y Gwasanaeth Ieuenctid, gyda 120 o bobl ifanc wedi ennill Gwobr Dug Caeredin (Efydd, Arian ac Aur), 150 o bobl ifanc bregus wedi ennill Cymhwyster Agored Cymru, a 150 o bobl ifanc wëid ennill gwobr Cyflawniad Ieuenctid.

Y maes amgylchedd ac isadeiledd, cyfrannwyd at y canlyniad o hybu **amgylchedd sy'n ddiogel a chynaliadwy.** Llwyddodd *Cynllun Lleihau Ôl Troed Carbon Gwynedd a Chynllun Rheoli Carbon y Cyngor* i sicrhau gostyngiadau o fewn sefydliadau cyhoeddus ym meysydd ynni, trafnidiaeth a gwastraff. Gwelwyd lleihad o 16.7% yn allyriadau carbon y cyngor ers 2010/11.

Er mwyn sicrhau **cyflenwad o dai addas yn y Sir,** llwyddwyd i ddod â 48 o dai o'r stoc dai presennol yn ôl i ddefnydd ynghyd â darparu 56 o unedau tai fforddiadwy.

Nid oedd modd gwireddu nifer o'r buddiannau a nodwyd ar gyfer y prosiect *Cludiant Cymunedol* er mwyn **sicrhau cysylltiadau hwylus a defnyddiol** ac yn sgîl hynny, bydd cwmpas y prosiect yn ehangu ar gludiant integredig yn ei gyfanrwydd.

Yn y maes **Trawsffurfio,** a sicrhau **Cyngor ar ei orau sydd yn cyflawni i bobl Gwynedd heddiw ac yfory,** gwelwyd llwyddiant i gydweithio yn rhanbarthol yn y maes Addysg ac yn y maes Caffael Gwasanaethau Cymdeithasol.

Am amryw o resymau, gwelwyd llithriad mewn sawl maes yn ymwneud ag ymgysylltu gyda'r cyhoedd, ond dylid nodi fod y gwaith gafodd ei gyflawni yn 2011/12 yn sylfaen gadarn ar gyfer cryfhau ein trefniadau yn 2012/13.

O safbwynt Grymuso Cymunedau, ni welwyd y cynnydd disgwyliedig, a phenderfynodd aelodau bwyllo er mwyn sicrhau fod ein cynlluniau, e.e. Fforymau Ardal yn cael yr effaith gorau yn y pen draw.

Er mwyn cyfrannu at sicrhau fod **pobl Gwynedd yn byw bywydau iachach**, gweithiwyd mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i adnabod yr ymyraethau sy'n gweithio ac yn newid ymddygiad pobl a chymunedau yn barhaol. Lansiwyd rhaglen waith *Gwynedd Iach* yn Eisteddfod Glynllifon, a bydd yn canolbwyntio ar weithredu i sicrhau:

- Gwynedd Di-fwg
- Gwynedd Egnïol
- Bwyta'n Iach
- Alcohol a Chyffuriau

Roedd ein cynlluniau yn y maes Iaith yn cyfrannu at y canlyniad o **bobl yn byw trwy gyfrwng y Gymraeg yng Ngwynedd.** Llwyddwyd i gwblhau'r holl weithgareddau, fodd bynnag, mae gwireddu'r canlyniad hwn yn llawn yn dasg tymor llawer hwy ac yn un sydd yn cael ei effeithio gan bob math o ddylanwadau eraill.

Yn y maes **Arbedion,** ein nod fu **cyflawni'r swm arbedion sydd ei angen ar gyfer cwrdd â gofynion strategaeth ariannol y Cyngor dros y cyfnod, gan effeithio cyn lleied â phosibl ar ganlyniadau i drigolion Gwynedd.**

Arbedwyd cyfanswm o dros £6m, gyda £4.5m o hwn yn dod drwy weithio'n fwy effeithlon. Yn ychwanegol, cytunwyd ar becyn newydd o gynlluniau effeithlonrwydd yn seiliedig ar 1% o gyllideb pob gwasanaeth am dair blynedd, a fydd yn arbed £4.7m.

Fodd bynnag, ni lwyddwyd i gyflawni popeth a fwriadwyd mewn rhai meysydd. Mae rhai cynlluniau effeithlonrwydd – yn bennaf rhai sy'n gofyn inni gydweithio gyda chynghorau a chyrff eraill, a rhai lle 'rydym yn cynnal adolygiad sylfaenol o natur y gwasanaeth a ddarperir – wedi llithro o'i gymharu â'r amserlen wreiddiol. Serch hynny, nid oedd hyn yn peryglu'n gallu i gyrraedd targedau ariannol y prosiect gan y llwyddwyd i'w canfod o gynlluniau effeithlonrwydd eraill.

Yn sgîl datganiadau diweddar y Canghellor y bydd gostyngiadau gwariant cyhoeddus yn parhau am o leiaf ddwy flynedd arall wedi 2014/15, fe fydd angen roi mwy o bwyslais fyth i'r dyfodol ar gyflawni'n cynlluniau yn unol â'r amserlen wrth effeithio cyn lleied â phosib ar ganlyniadau i drigolion Gwynedd.

Yn gryno felly, gellir adrodd fod 85% o brosiectau gwella'r Cyngor wedi gwneud cynnydd derbyniol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a gwelir fod ein mesuryddion perfformiad yn dangos ein bod yn parhau i berfformio i safon uchel, neu wedi gwella yn y mwyafrif helaeth o feysydd, ac yn cymharu'n gadarnhaol gyda gweddill Cymru.

Edrychwn ymlaen at weithio ymhellach er mwyn sicrhau cyflawni'r canlyniadau gorau i bobl Gwynedd.

# Cynlluniau Rhaglen Strategol y Cyngor

## Gofal

Mae'r cynlluniau yn y maes Gofal yn cyfrannu at y canlyniad isod:

***Pobl a phlant bregus yn derbyn cefnogaeth i fyw bywyd bodlon***

## Perfformiad yn y maes Gofal – Y Stori tu ôl i'r Perfformiad

Roedd buddion y cynlluniau yn y maes Gofal yn rhai heriol iawn yn 2011/12. Ond, fe lwyddwyd i gyflawni'r mwyafrif mawr ohonynt sef 78%.

Rhoddwyd pwyslais ar sicrhau fod cefnogaeth briodol ar gael i gefnogi pobl i aros yn eu cymunedau yn unol â'r canlyniad. Gwelwyd cynnydd yn y nifer o bobl sy'n derbyn gwasanaeth galluogi a theleofal ac mae'r cynlluniau i gynnig cefnogaeth ffurfiol ac anffurfiol yn y gymuned hefyd yn cynyddu. Fe fydd croeso mawr i'r datblygiad tai gofal ychwanegol yn Y Bala yn yr hydref ac mae'r gwaith ar gynllun tebyg ym Mangor ar fin cychwyn. Canlyniad hyn yw bod nifer y gwelyau sy'n cael eu comisiynu gan y Cyngor yn y sector preswyl wedi lleihau eto eleni ac yn nesu at ffigyrau Cymru.

Mae'r datblygiadau llety ym maes Anabledd Dysgu i'w croesawu'n fawr a thrafodaethau ar y gweill mewn ardaloedd eraill hefyd. Adnabuwyd meysydd gwaith newydd yn y maes hwn yn sgil cyhoeddi'r cynllun comisiynu newydd.


Ac ym maes comisiynu, mae mwy o eglurder i fudd-ddeiliaid mewn sawl maes gwasanaeth arall â'r rhaglen ymgysylltu yn datblygu i gefnogi'r gwaith hwn. Er na lwyddwyd i sicrhau trefniadau ansawdd yn ystod y flwyddyn, mae'r fframwaith ddrafft newydd yn plethu'r holl brosesau i'r dyfodol.


Ond, ni wireddwyd rhai buddion allweddol ac mae gwaith yn mynd rhagddo i adnabod adnoddau i wireddu'r buddion hynny ac i ail raglennu'r gwaith ar gyfer 2012/13. Prin fu'r cynnydd yn y prosiectau cydweithio gydag Ynys Môn a bydd angen cytuno ar gyfeiriad y prosiectau hynny yn fuan rhag llesteirio cynnydd yn y meysydd hynny ymhellach.


Bydd angen trafod rhag blaen gyda'r Cabinet newydd i gytuno ar gyfeiriad gofal preswyl yng Ngwynedd ac fe fydd y gwaith a wnaed ar ddata yn cyfrannu at y trafodaethau hynny.

Yn ddi-os fe welwyd cynnydd mawr yn ystod 2011/2012 a'r her fydd nid cynnal y gwelliant ond ei gynyddu yn ystod y flwyddyn nesaf.

## Dangosyddion Allweddol Gofal



## Cynlluniau Gofal

| Cyfeirnod | Gwelliant | Prif allbwn neu ddeilliant y cynllun neu brosiect ar gyfer y flwyddyn 2011/12 | Coch/ Ambr/ Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| CGOE01 | Cynllun Galluogi. | Ymestyn y ddarpariaeth Galluogi i ddefnyddwyr Gwasanaeth Anabledd Dysgu ac Iechyd Meddwl.<br><br>250 o becynnau galluogi dwys yn cael eu darparu yng Ngwynedd; Cynnydd o 20%.<br><br>9,840 o oriau gofal cartref ar gyfartaledd yn cael eu darparu yng Ngwynedd sef lleihad o 2%. | GWYRDD | Y ddarpariaeth Galluogi wedi ei ymestyn i ddefnyddwyr Gwasanaeth Anabledd Dysgu ac i ddefnyddwyr Gwasanaeth Iechyd Meddwl.<br><br>Gwelwyd cynnydd sylweddol yn y nifer dderbyniodd y gwasanaeth Galluogi yn ystod y flwyddyn o 200 i 342 sef bron i 100 yn fwy na'r targed gwreiddiol o 250.<br><br>Fe welwyd cynnydd mewn nifer o oriau gofal cartref yn cael ei ddarparu a gwaith dadansoddi yn parhau. |
| CGOE02 | Cynllun Teleofal. | Gwell gwasanaeth gosod offer i ddefnyddwyr yn dilyn integreiddio Gwasanaeth Diogelwch yn y Cartref a gosod Teleofal.<br><br>915 o becynnau telefoal mewn defnydd; Cynnydd o 5%.<br><br>30 o becynnau teleofal arbenigol wedi eu darparu i ddefnyddwyr bregus iawn. | GWYRDD | Ddiwedd 2011/12, roedd 1,166 o becynnau teleofal mewn defnydd yng Ngwynedd. Hyn yn gynnydd o 34%.<br><br>Yn ogystal yn ystod 2011/12 darparwyd 62 pecyn teleofal arbenigol, oedd yn fwy na'r targed o 30 pecyn. |
| CGOE03 | Prosiect Gofal Dydd Pobl Hŷn. | Cytundeb efo Age Cymru i ymestyn y gefnogaeth anffurfiol i bobl hŷn ar draws Gwynedd.<br>Cynnydd 360 yn nifer y bobl hŷn sy'n | GWYRDD | Cytundeb mewn lle rhwng Cyngor Gwynedd ag Age Concern am y cyfnod 2011-14.<br><br>Llwyddwyd i sicrhau fod oddeutu 695 o bobl hŷn wedi |

| Cyfeirnod | Gwelliant | Prif allbwn neu ddeilliant y cynllun neu brosiect ar gyfer y flwyddyn 2011/12 | Coch/ Ambr/ Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | cael cefnogaeth anffurfiol yn y gymuned. | | derbyn cefnogaeth anffurfiol yn y gymuned. |
| CGOE08 | Gofal Tymor Byr-Adfer. | Cytundeb ar y model gofal tymor byr adfer fydd ar gael i gefnogi byw'n annibynnol. | GWYRDD | Model wedi ei gytuno, ac yn dilyn cytuno ar fodel darpariaeth, addaswyd uned ym Mhlas Gwilym Penygroes fel uned gofal tymor byr adfer yn ystod y flwyddyn. Fe fydd Uned Adfer chwe gwely yn agor yno ym 2012/13. |
| CGOE09 | Gofal Tymor Byr-Ysbaid. | Cytundeb ar y model gofal tymor byr ysbaid a fydd ar gael i gefnogi byw'n annibynnol. | AMBR | Mae'r fanyleb ar gyfer sefydlu uned ysbaid wedi ei chwblhau a gwaith yn mynd rhagddo i adnabod lleoliad addas. |
| CGOE11 | Darpariaeth breswyl a nyrsio. | Dim allbwn penodol i'w gwireddu yn ystod 2011/12, gwaith paratoadol yn unig. | | Yn ystod y flwyddyn 2011/12, diweddarwyd yr holl wybodaeth sy'n amlinellu'n glir anghenion a bwriadau comisiynu ar gyfer gwasanaeth preswyl yn y dyfodol. |
| CGOE12 | Tai Gofal Ychwanegol (TGY). | Dim allbwn penodol i'w gwireddu yn ystod 2011/12, gwaith paratoadol yn unig.<br><br>Tai Gofal Ychwanegol yn weithredol yn y 4 ardal o fewn y Cynllun, sef Y Bala, Llan Ffestiniog, Bangor a Phorthmadog. | | <u>Y Bala</u> - gwaith adeiladu bron â'i gwblhau a rhagwelir y bydd y tenantiaid cyntaf yn symud i Awel y Coleg yn yr Hydref 2012.<br><u>Llan Ffestiniog</u> – gwrthodwyd apêl cais cynllunio TGY Llan Ffestiniog. Trosglwyddwyd dyraniad grant y cynllun i gynllun tebyg ym Mangor.<br><u>Porthmadog</u> - er i Fwrdd y Cyngor gymeradwyo datblygu cynllun TGY ar safle Hafod y Gest, gwrthodwyd y cais gan y Cyngor llawn. Mae gwaith pellach yn cael ei wneud ar asesiad anghenion gofal a llety yn y dalgylch. |

| Cyfeirnod | Gwelliant | Prif allbwn neu ddeilliant y cynllun neu brosiect ar gyfer y flwyddyn 2011/12 | Coch/ Ambr/ Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| CGOE04 | Prosiect Gwasanaethau Anabledd Dysgu (AD) - Gofal Dydd. | Cytundeb ar fodelau gofal dydd rhaglen waith wedi ei chynllunio i ddarparu gofal dydd yn unol ag argymhellion Cynllun Comisiynu AD. | GWYRDD | Achos Busnes a Rhaglen waith ar y canolfannau Gofal Dydd Anabledd Dysgu wedi ei gwblhau. |
| CGOE14 | Prosiect Gwasanaethau Anabledd Dysgu- Llety. | Eglurder i fudd-ddeiliaid ar fwriadau comisiynu'r pum mlwyddyn nesaf ym maes Anableddau Dysgu, fydd yn cyd-fynd â gweledigaeth yr Adran, capasiti cyllidol ac anghenion defnyddwyr.<br><br>Cytundeb ar fodelau llety addas ar gyfer anghenion defnyddwyr gwasanaeth anabledd dysgu Gwynedd yn unol ag argymhellion y cynllun Comisiynu AD.<br><br>£300K o arbedion wedi eu hadnabod a'u gwireddu. | GWYRDD | Cymeradwywyd bwriadau comisiynu'r pum mlynedd nesaf ym maes Anableddau Dysgu gan y Cyngor. Fe ddaeth defnydd Pant yr Eithin Harlech fel cartref i ben erbyn 31 Mawrth 2012 ac mae rhan-ddeiliaid yn cydweithio i ddatblygu modelau llety newydd i'r safle. Cytunwyd hefyd fod angen datblygu opsiynau yn 2012/13 ar gyfer Tan y Marian Pwllheli a Frondeg Caernarfon.<br><br>Mae safle Pant yr Eithin bellach wedi cau, gyda'r arbediad wedi ei wireddu. |
| CG0E16 | Tai Gwarchod. | Dadansoddiad o'r cyfleoedd sydd ar gael o fewn y ddarpariaeth tai gwarchod i gynnig cefnogaeth addas yn y gymuned a dewis llety i bobl hŷn ac opsiynau gweithredu posib. | GWYRDD | Cwblhawyd Adroddiad Arolwg Tai Gwarchod sydd i osod cyfeiriad ar gyfer 2012/2013. |
| CGOE18 | Cefnogi Oedolion Ifainc Bregus. | Eglurder ar niferoedd ac anghenion oedolion ifanc bregus.<br>Opsiynau darpariaeth wedi eu cynllunio i ddiwallu'r angen.<br>Cytundeb ar y ffordd ymlaen. | COCH | Ni lwyddwyd i roi blaenoriaeth o fewn rhaglen waith y Gwasanaeth yn 2011/12 i'r Prosiect hwn gan fod cynifer o ofynion eraill. Bydd rhaid adolygu a ddylid ei gynnwys fel gwelliant yn 2012/13 ai peidio ag adnabod adnodd i gyfarch hynny. |

| Cyfeirnod | Gwelliant | Prif allbwn neu ddeilliant y cynllun neu brosiect ar gyfer y flwyddyn 2011/12 | Coch/ Ambr/ Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| GCBU01 | Cynlluniau Comisiynu'r Gwasanaethau Cymdeithasol. | Eglurder i fudd-ddeiliaid ar fwriadau comisiynu'r pum mlwyddyn nesaf ym maes Pobl Hŷn ac Anableddau Dysgu, fydd yn cyd-fynd â gweledigaeth yr Adran, capasiti cyllidol ac anghenion defnyddwyr. | GWYRDD | Cymeradwyed cynlluniau comisiynu Pobl Hŷn ac Anabledd Dysgu gan Fwrdd y Cyngor yn ystod 2012/13. Gwnaed gwaith pellach hefyd ar Gynllun Comisiynu Plant a Phobl Ifanc drafft. |
| GCBU02 | Fframwaith Rheoli Perfformiad. | Swyddogion yr Adran, i lawr i lefel Arweinydd Tîm / Uwch Ymarferydd, wedi cymryd rhan lawn mewn hunan arfarniad gan adnabod lle mae angen cynllunio ar gyfer gwella profiadau a chanlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth.<br><br>Ymarfer Canlyniadau'n Cyfrif wedi ei gwblhau ym mhob maes a adnabuwyd yn ystod yr hunan arfarnu fel maes lle'r oedd angen 'troi'r gornel' o ran perfformiad, er mwyn gwella ansawdd perfformiad. | COCH | Mae'r gwaith a gychwynnodd yn 2011/12 yn parhau fel gwelliant allweddol yn 2012/13.<br><br>Sesiynau hunan arfarnu wedi digwydd drwy'r holl wasanaethau o fewn yr Adran.<br><br>Ymarfer Canlyniadau'n Cyfrif wedi ei gwblhau ym mhob maes a adnabuwyd yn ystod yr hunan arfarnu. |
| GCBU03 | Cynllun Ymgysylltu. | Ar gyfer pob cynllun allweddol yn y Rhaglen Wella Gofal, ymarferiad Mapio Budd-ddeiliaid wedi ei gwblhau, a chynllun ymgysylltu eglur yn ei le fydd yn sicrhau bod budd-ddeiliaid yn rhan ganolog o unrhyw ddatblygiad. | GWYRDD | Mae'r Rhaglen Waith Ymgysylltu yn parhau i ddatblygu er mwyn cwrdd â gofynion ymgysylltu'r Adran.<br><br>Sesiynau wedi eu cynnal yn cynnwys yn Nhywyn, Tachwedd 2011, Dolgellau, Pwllheli a Chaernarfon ym Mawrth 2012. |
| GCBU04 | Adolygu Systemau Ariannol. | Adnoddau dynol wedi eu hariannu a'u canfod i fewnosod modiwlau cyllid RAISE fydd, o'i wireddu, yn rhoi'r budd | AMBR | Gwaith arbrofi a newid trefniadau gwaith yn parhau. |

| Cyfeirnod | Gwelliant | Prif allbwn neu ddeilliant y cynllun neu brosiect ar gyfer y flwyddyn 2011/12 | Coch/ Ambr/ Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | o sicrhau gwell priodoldeb ariannol, cynyddu effeithlonrwydd prosesau a rhoi gwell profiad i ddefnyddwyr gan y bydd gwybodaeth bersonol a gwybodaeth ariannol yn yr un system. | | |
| GCBU06 | Datblygu'r Gweithlu. | Uned Datblygu'r Gweithlu ar y cyd rhwng Gwynedd a Môn wedi ei sefydlu gyda chynllun ar gyfer cyflawni'r un lefel / ansawdd gwasanaeth gyda llai o adnoddau neu gyflawni'n uwch gyda'r un adnodd ac sy'n bodoli ar hyn o bryd rhwng y ddau gyngor. | COCH | Yn sgîl y diffyg cynnydd, mae angen cytuno ar gyfeiriad y prosiect cydweithio hwn er mwyn ail raglennu ar gyfer 2012/13. |
| GCBU07 | Cefnogaeth systemau Technoleg Gwybodaeth (TG). | Dim deilliant yn 2011/12. | | Mae angen cytuno ar gyfeiriad y prosiect cydweithio hwn er mwyn ail raglennu ar gyfer 2012/13. |
| GCBU08 | Sicrwydd ansawdd. | Uned Sicrhau Ansawdd ar gyfer Gwynedd wedi ei sefydlu, a rhaglen awdit ar gyfer pob un o'r pedwar Gwasanaeth yr Adran wedi ei llunio bydd yn amlygu lle mae angen ymchwilio i fannau potensial ar gyfer gwella ansawdd a phrofiadau defnyddwyr. | COCH | Mae'r gwaith a gychwynnodd yn 2011/12 yn parhau fel gwelliant allweddol i'w gwblhau yn 2012/13. |
| GCBU09 | Prosiect Llywodraethu Gwybodaeth. | Trefn ffeilio a storio gwybodaeth adrannol yn weithredol, fydd yn golygu bod staff yn medru gweithio'n fwy effeithiol a bod gwybodaeth am ddefnyddwyr gwasanaeth a budd-ddeiliaid eraill yn fwy diogel. | GWYRDD | Mae'r rhaglen waith yn parhau i gael ei gweithredu. |

| Cyfeirnod | Gwelliant | Prif allbwn neu ddeilliant y cynllun neu brosiect ar gyfer y flwyddyn 2011/12 | Coch/ Ambr/ Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| GCT03 | Addasiadau. | Dadansoddiad manwl o'r broses ac argymhellion gweithredu i leihau hyd weithredu addasiadau i ddefnyddwyr. | GWYRDD | Dadansoddiad wedi ei gwblhau o'r broses yn ystod 2011/12 ac argymhellion wedi eu llunio.<br><br>Mae'r amser gaiff ei gymryd i gwblhau grant i'r anabl nawr wedi lleihau i 283 o ddyddiau sef gwelliant ar y targed a osodwyd. |
| GCPL01 | Datblygu'r Tîm Cefnogaeth Integredig i Deuluoedd yn lleol (IFSS). | Bwrdd Gwasanaeth Cefnogaeth Integredig i Deuluoedd wedi ei sefydlu i arwain ar y broses o sefydlu trefn IFSS yng Ngwynedd<br><br>Eglurder a chytundeb yn ei le rhwng partneriaid ynglŷn â'r model gweithredu mwyaf addas i anghenion Gwynedd newydd ar gyfer IFSS yng Ngwynedd. | GWYRDD | Sefydlwyd Bwrdd cysgodol rhwng Môn a Gwynedd i ddatblygu Tîm Cefnogaeth Integredig ond yn sgîl cyfarwyddiadau newydd Llywodraeth Cymru, bydd gofyn adolygu hyn yn ystod 2012/13. |
| | Gwasanaeth Yfory. | Dadansoddiad manwl o'r cynnydd mewn cyfeiriadau a'r cynnydd o 5% yn nifer y plant mewn gofal wedi ei gwblhau.<br><br>Opsiynau wedi eu cynllunio i gyfarfod yr angen a chytundeb ar y ffordd ymlaen. | GWYRDD | Cwblhawyd dadansoddiad manwl o'r cynnydd mewn cyfeiriadau a'r cynnydd o 5% yn nifer y plant mewn gofal.<br><br>Ymatebwyd i'r cynnydd drwy adnabod, cynllunio a chytuno ar opsiynau, ac yna llunio a llwyddo gyda bid am adnoddau ychwanegol i'r Gwasanaeth. |

## Dangosyddion Eraill Gofal

| Dangosydd | Gwaelodlin 2010/11 | Perfformiad 2011/12 |
|---|---|---|
| Nifer o becynnau teleofal arbenigol a ddarperir | - | 62 |
| Nifer o becynnau teleofal sylfaenol a ddarperir | 870 | 1166 |
| Nifer sy'n derbyn pecyn o alluogi dwys | 200 | 342 |
| Nifer y nosweithiau ysbaid gaiff eu darparu | - | 1682 |
| Nifer sy'n derbyn cefnogaeth anffurfiol o fewn y gymuned | - | 695 |
| Nifer o unedau TGY ar gael yng Ngwynedd | 0 | 0 |
| Nifer y gwelyau preswyl | 689 | 616 |
| Nifer y gwelyau nyrsio | 412 | 271 |
| Hyd gweithredu addasiadau | 400 diwrnod | 283 |
| Nifer y plant mewn gofal | 179 | 195 |

## Adfywio a'r Economi

Mae'r cynlluniau yn y maes Adfywio a'r Economi yn cyfrannu at y canlyniadau isod:

***Ffyniant Economaidd – Bydd economi Gwynedd yn ffynnu***

***Bydd cyfleoedd teg i bawb fod yn rhan o'r byd gwaith, gyda phwyslais ar bobl ifanc dan 25 oed a grwpiau eraill sy'n wynebu rhwystrau***

***Bydd Gwynedd yn lle cyffrous i fyw efo cymunedau byrlymus***

## Perfformiad y maes Adfywio â'r Economi – Y Stori tu ôl i'r Perfformiad

Diffyg swyddi, hinsawdd anodd i fusnesau lleol, incwm isel aelwydydd y sir, ac economi yn dibynnu gormod ar nifer cyfyng o sectorau gwaith - dyma'r prif heriau adnabuwyd ar ddechrau'r flwyddyn. Gwelwyd y rhain yn cyfrannu at golli pobl ifanc o'r sir ac at y syniad fod bywyd yn fwy anturus mewn mannau eraill. Dewiswyd prosiectau'r rhaglen felly yn ôl eu potensial i ymateb i'r heriau hyn, gan drawsnewid y sefyllfa er mwyn cyrraedd at y canlyniadau nodir uchod. Deallwyd o'r cychwyn fod hon yn nod hirdymor, gyda rhaglen 2011-14 yn cynrychioli'r cam cyntaf ar y daith.

Gyda ffocws ar **ffyniant economaidd** llwyddwyd gyda'n partneriaid i gychwyn gosod y seiliau ar gyfer datblygu sectorau gwaith newydd gyda'r potensial i gynnig swyddi da i bobl leol yn y dyfodol - rhoddwyd sylw penodol i'r sectorau ynni, digidol, a meddygol. Llwyddodd prosiect *Gwynedd Ddigidol* i sefydlu ymwybyddiaeth o'r sir fel un flaengar, a'r sir fwyaf llwyddiannus yn y wlad o ran denu grantiau i ddileu'r *Hebfannau* digidol. Gosodwyd llwyfan ar gyfer denu buddsoddiad ar gyfer band eang tra chyflym i'r sir, ac ar gyfer sefydlu diwydiannau digidol newydd. Cyfrannodd yr ymwybyddiaeth yma a gwaith *Gwynedd Werdd* at sefydlu Parth Menter Eryri.

Mae **creu cyfleoedd teg i fod yn rhan o'r byd gwaith** yn faes allweddol i'r sir. Llwyddwyd i gefnogi dros 623 o unigolion i ddod yn nes at gyflogaeth. Ar yr un pryd gorfodwyd y rhaglen i ollwng gweithgaredd i sefydlu trefn integredig fyddai o fudd i bobl yn wynebu rhwystrau - oherwydd newid trefniadau cymorth Llywodraeth Prydain. Byddwn yn effro i unrhyw gyfle ddaw yn 2012/13 i weithredu'r bwriad.

Llwyddodd prosiect *Yma Mae Pethau'n Digwydd* i wireddu'r buddion addawyd gan sicrhau cynnal naw digwyddiad i godi proffil y sir, a sefydlu'r ymdeimlad o **le cyffrous i fyw**. Codwyd ymwybyddiaeth busnesau a phobl ifanc y sir o'r cyfleon lleol.

Trwyddi a thro profodd y rhaglen gryn lwyddiant gan gwblhau 32 o'r 36 budd a ragwelwyd. Ni lwyddwyd i gwblhau gwaith mewn dau faes o fewn y flwyddyn, ond bydd gwaith yr ymgynghorwyr allanol yn cael ei gwblhau yn 2012/13, gan amlygu'r cyfleon o ynni adnewyddol, a'r potensial i gysylltu graddedigion gyda swyddi proffesiynol anodd eu llenwi yn eu sir enedigol.

## Dangosyddion Allweddol Adfywio a'r Economi

| Dangosydd | Gwaelodlin | Sefyllfa / Data Diweddaraf |
|---|---|---|
| ***Canlyniad 1*** | | |
| Cymhareb nifer swyddi gwag i hawlwyr JSA (Job Seekers Allowance): Gwynedd/Cymru/DG<br>*(Cynnydd)*<br><br>***(Cyrhaeddiad 2014: Cynnal y sefyllfa rhag gwaethygu)*** | Gwynedd: 0.20:1<br>Cymru: 0.23:1<br>PF: 0.21:1<br><br>*(Mehefin 2010)* | Gwynedd: 0.23:1<br>Cymru: 0.19:1<br>PF: 0.18:1<br><br>(*Mehefin 2011*) |
| Cymhareb nifer swyddi gwag i hawlwyr JSA: 3 Ardal Gwynedd<br>*(Cynnydd)*<br><br>***(Cyrhaeddiad 2014: Cynnal y sefyllfa rhag gwaethygu)*** | Arfon: 0.19:1<br>Dwyfor: 0.42:1<br>Meirionnydd: 0.12:1<br><br>*(Mehefin 2010)* | Arfon: 0.19:1<br>Dwyfor: 0.53:1<br>Meirionnydd: 0.18:1<br><br>(*Mehefin 2011*) |
| % swyddi yn ôl diwydiant yng Ngwynedd<br>*(Cynnydd mewn amrywiaeth, gyda sectorau targed yn cynyddu presenoldeb -* ***Nod tymor hir na ellir ei mesur yn y tymor byr*** *)* | ▪ Amaethyddiaeth a physgota: 0.6%<br>▪ Adeiladu: 4.5%<br>▪ Bancio, cyllid, yswiriant ayb. (*cynnwys cyfryngau, gwybodaeth a thelecom*): 8.6%<br>▪ Egni a dŵr: 1.2%<br>▪ Dosbarthiad, gwestai a thai bwyta: 31.2%<br>▪ Gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg & iechyd: 37.3%<br>▪ Cynhyrchu: 7.6%<br>▪ Trafnidiaeth a Chyfathrebu: 3.6%<br>▪ Gwasanaethau eraill: 5.3% | Y drefn cyfrifo data wedi newid.<br>Mae'r 'BRES' (Business Register and Employment Survery) wedi cymryd lle'r 'ABI' (Annual Business Enquiry) ers 2008 (gweler y ffigyrau isod). |

| | | |
|---|---|---|
| | BRES 2008<br>▪ Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota : 0.4%<br>▪ Mwyngloddio, chwarela a gwasanaethau : 2.1%<br>▪ Gweithgynhyrchu : 7.0%<br>▪ Adeiladu : 4.8%<br>▪ Crefftau modur : 1.2%<br>▪ Cyfanwerthu : 2.2%<br>▪ Mânwerthu : 13.7%<br>▪ Trafnidiaeth a storio: 2.7%<br>▪ Gwasanaethau llety a bwyd: 13.6%<br>▪ Gwybodaeth a chyfathrebu: 1.9%<br>▪ Ariannol ac yswriant: 1.7%<br>▪ Eiddo : 0.7%<br>▪ Proffesiynol, gwyddonol a thechnegol; 2.7%<br>▪ Gweinyddu busnes a chefnogi gwasanaethau: 3.1%<br>▪ Celfyddydau, adloniant, hamdden a gwasanaethau eraill: 4.0%<br>▪ Gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg a iechyd: 38.1% | BRES 2010<br>▪ Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota: 0.3%<br>▪ Mwyngloddio, chwarela a gwasanaethau : 2.7%<br>▪ Gweithgynhyrchu : 7.1%<br>▪ Adeiladu : 4.4%<br>▪ Crefftau modur : 1.5%<br>▪ Cyfanwerthu : 2.7%<br>▪ Mânwerthu : 13.0%<br>▪ Trafnidiaeth a storio: 2.3%<br>▪ Gwasanaethau llety a bwyd: 13.4%<br>▪ Gwybodaeth a chyfathrebu: 1.8%<br>▪ Ariannol ac yswriant: 0.7%<br>▪ Eiddo : 0.7%<br>▪ Proffesiynol, gwyddonol a thechnegol; 3.1%<br>▪ Gweinyddu busnes a chefnogi gwasanaethau: 2.3%<br>▪ Celfyddydau, adloniant, hamdden a gwasanaethau eraill: 5.2%<br>▪ Gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg a iechyd: 38.0% |

| | | |
|---|---|---|
| Cyflog cymharol Gwynedd (tâl gros wythnosol)<br>*(Cynnydd)*<br><br>***(Cyrhaeddiad 2014: Cynnal y sefyllfa rhag gwaethygu)*** | Gwynedd:<br>89.5% o ffigwr Cymru<br>81.4% o ffigwr y DG<br><br>(2009) | Gwynedd:<br>98.5% o ffigwr Cymru<br>90.5% o ffigwr y DG<br><br>(2011) |
| Cynnydd mewn goroesiad busnesau - Cymhareb genedigaethau i farwolaethau busnesau: Gwynedd/Cymru/DG<br>*(Cynnydd)*<br><br>***(Cyrhaeddiad 2014: Cynnal y sefyllfa rhag gwaethygu*** | Gwynedd: 1.12<br>Cymru: 1.06<br>DG: 1.23 | Gwynedd: 0.70<br>Cymru: 0.68<br>DG: 0.79 |
| Cofrestriadau TAW:<br>▪ Indecs Gwynedd/ Cymru/DG;<br>▪ Nifer Gwynedd<br>*(Cynnydd)*<br><br>***(Cyrhaeddiad 2014: Cynnal y sefyllfa rhag gwaethygu)*** | Indecs Gwynedd: 115.7<br>Indecs Cymru: 119.8<br>Indecs DG: 124.5<br>Nifer Gwynedd: 6,250<br><br>(2010) | Indecs Gwynedd: 114.8<br>Indecs Cymru: 117.5<br>Indecs DG: 123.2<br>Nifer Gwynedd 6,200<br><br>(2011) |
| ***Canlyniad 2*** | | |
| Nifer Hawlwyr JSA dan 25 oed<br>*(Lleihad)*<br><br>***(Cyrhaeddiad 2014: Lleihad sef cynnydd o'r sefyllfa bresennol)*** | Nifer Gwynedd: 625<br>(*sef 30.5% o'r holl hawlwyr*)<br><br>(Gorffennaf 2010) | Nifer Gwynedd: 560<br>*(sef 28.5% o'r holl hawlwyr)*<br><br>(Gorffennaf 2011) |
| % o'r bobl oed gwaith sydd mewn gwaith<br>*(Cynnydd)*<br><br>***(Cyrhaeddiad 2014: Cynnal y sefyllfa rhag gwaethygu)*** | Pobl yn economaidd weithgar (graff): 71.7%<br><br>Pobl mewn gwaith: 67.6% | Pobl yn economaidd weithgar (graff): 73.5%<br><br>Pobl mewn gwaith: 69.1%<br>(2010) |

| | | |
|---|---|---|
| Incwm Canolrifol aelwydydd Gwynedd a'i 3 Ardal – cymhariaeth efo Cymru a'r DG<br>*(Cynnydd)*<br><br>***(Cyrhaeddiad 2014: Cynnal y sefyllfa rhag gwaethygu)*** | Gwynedd: £24,878<br>Cymru: £26,469<br>DG: £29,365<br><br>Arfon: £25,305<br>Dwyfor: £24,792<br>Meirionnydd: £24,360<br>(2009) | Gwynedd: £23,280<br>Cymru: £25,160<br>DG: £29,000<br><br>Arfon: £23,870<br>Dwyfor: £23,221<br>Meirionnydd: £22,485<br>(2011) |
| Cyfradd plant Gwynedd mewn teuluoedd di-waith<br>*(Lleihad)*<br><br>***(Cyrhaeddiad 2014: Cynnal y sefyllfa rhag gwaethygu)*** | Gwynedd: 188 o bob 1,000 plentyn<br>Cymru: 256 o bob 1,000<br>DG: 238 o bob 1,000<br><br>(2008/09) | Gwynedd: 188 o bob 1,000 plentyn<br>Cymru: 264 o bob 1,000<br>DG: 243 o bob 1,000<br><br>(2009/10) |
| **Canlyniad 3** | | |
| Poblogaeth oed gwaith Gwynedd fel % o'r boblogaeth<br>*(Cynnydd)*<br><br>***(Cyrhaeddiad 2014: Cynnal y sefyllfa rhag gwaethygu)*** | Gwynedd: 62.2% | Gwynedd: 62.3% |
| % rhai 20-34 oed sy'n allfudo o Wynedd *(Lleihad)*<br><br>***(Cyrhaeddiad 2014: Cynnal y sefyllfa rhag gwaethygu)*** | Gwynedd: 13.5%<br><br>(2008/09) | Gwynedd: 13.0%<br><br>(2009/10) |
| % Bodlonrwydd trigolion ardaloedd Gwynedd o ran byw yn y sir a'r ddarpariaeth gwasanaethau<br>*(Cynnydd)*<br><br>***(Cyrhaeddiad 2014: I'w sefydlu)*** | I'w sefydlu | I'w sefydlu |

## Cynlluniau Adfywio a'r Economi

| Cyfeirnod | Gwelliant | Prif allbwn neu ddeilliant y cynllun neu brosiect ar gyfer y flwyddyn 2011/12 | Coch/ Ambr/ Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| PG.10 | Gwynedd Werdd a'r Sector Carbon Isel- Ynni Carbon Isel. | Bydd Gwynedd wedi sicrhau fod y trefniadau mewnol ac allanol priodol mewn lle i alluogi'r sir i ddylanwadu ar gyfeiriad y gwaith ar wahanol lefelau cyfrifoldeb.<br>Bydd gweithwyr Magnox a'u cytundebwyr ar safle Trawsfynydd yn cael cefnogaeth i'w sgilio ar gyfer cyfleoedd gwaith dad-gomisiynu Wylfa; gwaith Wylfa B, neu gyfleoedd eraill. | GWYRDD | Trefniadau cydweithio a rheoli Cynllun 'Shaping the future' wedi'u cadarnhau. |
| PG.11 | Gwynedd Werdd a'r Sector Carbon Isel - Ynni Adnewyddol. | Bydd y sail ar gyfer datblygu'r sector ynni adnewyddol yng Ngwynedd a'r cyfleoedd yn glir, o ganlyniad i'r gwaith sgopio cychwynnol. | AMBR | Gwaith wedi ei gomisiynu. Bydd casgliadau yn cael eu hadrodd mis Mehefin. |
| SD.G.1 | Gwynedd Ddigidol: Cefnogi LlC yn rhagweithiol i sgopio anghenion technolegol y sir, mapio'r ddarpariaeth isadeiledd a sefydlu Gwynedd fel ardal beilot. | Byddwn yn gwybod anghenion isadeiledd y sir, sut i weithredu, a'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu mewn ymateb iddynt. | GWYRDD | Anghenion y sir wedi eu hadnabod drwy law data ansoddol ac ymchwil ymysg trigolion a busnesau Gwynedd. Patrwm dymunol ar gyfer darparu band eang cyflym wedi ei ddatblygu a'i gytuno gan Aelodau'r Cyngor cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. |

| Cyfeirnod | Gwelliant | Prif allbwn neu ddeilliant y cynllun neu brosiect ar gyfer y flwyddyn 2011/12 | Coch/ Ambr/ Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| SD.G.2 | Gwynedd Ddigidol: Datblygu potensial rhwydwaith a chyfleusterau TGCh y Cyngor er mwyn: cryfhau isadeiledd ar draws y sir; ac i alluogi busnesau a thrigolion i gysylltu efo darparwyr gwasanaeth ac awdurdodau cyhoeddus. | Dim deilliant yn 2011/12. | | Darpariaeth Wi-Fi am ddim yn adeiladu'r Cyngor wedi ei ddatblygu ac yn cael ei osod ymhob llyfrgell, canolfan hamdden, archifdy, canolfan croeso a Siop Gwynedd. |
| SD.G.3 | Gwynedd Ddigidol: Cefnogi pobl Gwynedd i gael at y cronfeydd i ddileu’r Heb-fannau (Not-spots). | Bydd trigolion ar draws y sir yn gwybod fod grantiau Llywodraeth Cymru (LlC) ar gael ar gyfer yr Hebfannau a sut i gael cymorth i fanteisio (100% Cartrefi a 100% Busnesau yn ymwybodol). | GWYRDD | Taflenni gwybodaeth wedi eu cynhyrchu a'u cylchredeg yn helaeth ac ymgyrch hysbysebu wedi ei gynnal gan gynnwys yn Newyddion Gwynedd ac ar Facebook. LlC wedi adrodd cynnydd o dros 100% yn y nifer o geisiadau o Wynedd. |
| SD.G.4 | Gwynedd Ddigidol: Amlygu potensial a hybu defnydd band eang, a’r genhedlaeth nesaf e.e. ar gyfer gwasanaethau ar lein ac e-fasnach. | Bydd trigolion a busnesau yn dechrau dod yn ymwybodol o’r potensial gyda rhaglen i hyrwyddo defnydd y dechnoleg yn weithredol. | GWYRDD | Rhaglen yn weithredol. |
| PG.12 | Datblygiadau’r Sector Feddygol, Gwyddoniaeth ac Uwch-Dechnoleg – Arwain ar cyfleon i fusnesau, gweithlu a darpar weithlu Gwynedd. | Bydd y cyfleoedd i’r sector breifat wedi eu hadnabod, ynghyd â chwmnïau posib ar gyfer cydweithio. | GWYRDD | Trefn mewn lle i rwydweithio gyda busnesau a chreu cysylltiadau gydag adrannau perthnasol o'r Brifysgol. |

| Cyfeirnod | Gwelliant | Prif allbwn neu ddeilliant y cynllun neu brosiect ar gyfer y flwyddyn 2011/12 | Coch/ Ambr/ Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| PG.01 | Cadw'r Budd yn Lleol - Datblygu sectorau allweddol drwy uchafu budd economaidd cynlluniau cyfalaf mawr. | Bydd busnesau maes awyr agored yn glir o'r cyfleoedd yn ôl sectorau ac ardal. Bydd busnesau yn y sector adeiladu wedi manteisio ar weithdai a seminarau tendro wedi eu teilwrio i gytundebau unigol. | GWYRDD | Cynllun i hyrwyddo cyfleoedd busnes yn deillio o fuddsoddiadau Canolfan Rhagoriaeth Eryri yn weithredol. Cyfres o ddigwyddiadau gyda busnesau lleol wedi eu cynnal yn ystod Mawrth 2012.<br><br>Amryw o weithdai/seminarau ar gyfer y sector adeiladu wedi eu cynnal hyd yma. |
| PG.02 | Cadw'r Budd yn Lleol - Ymateb i angen sectorau lleol i dderbyn mwy o'r budd o gynlluniau cyfalaf mawr. | Byddwn wedi adnabod y potensial llawn o ddefnydd cymalau cymdeithasol o fewn cytundebau. | GWYRDD | Gwaith ymchwil ac asesiad o botensial defnydd cymalau cymdeithasol wedi ei gwblhau. Hefyd, cymalau wedi eu treialu fel rhan o gytundebau Cynllun Adfywio Canol Tref Blaenau Ffestiniog. |
| PG.02.2 | Cadw'r Budd yn Lleol - Ymateb i angen sectorau lleol i dderbyn mwy o'r budd o gynlluniau cyfalaf mawr. | Bydd anghenion sgiliau'r sectorau allweddol wedi eu hadnabod. | AMBR | Y rhaglen i adnabod sgiliau wedi ei wneud fesul sector allweddol mewn camau ar wahân yn hytrach nag un comisiwn, ac mae hyn wedi effeithio felly ar gyrraedd y budd hwn. I'w gwblhau yn 2012/13. |
| PG.03 | Cadw'r Budd yn Lleol - Creu'r amodau i annog a hybu twf yr economi. | Bydd Cronfa Fuddsoddi ar gyfer benthyciadau wedi ei sefydlu ac ar gael i fusnesau Gwynedd.<br>Bydd cwmnïau lleol wedi derbyn benthyciad i fuddsoddi yn eu busnes.<br>Bydd busnesau a swyddi wedi eu diogelu trwy'r gefnogaeth a roddwyd. | GWYRDD | Cronfa Benthyciadau newydd y Cyngor wedi ei lansio ac yn nawr yn weithredol.<br><br>Gwerthusiad blwyddyn gyntaf wedi'i gwblhau a'i gyflwyno i'r Bwrdd Rhaglen Adfywio a'r Economi ar 13/03/12. |

| Cyfeirnod | Gwelliant | Prif allbwn neu ddeilliant y cynllun neu brosiect ar gyfer y flwyddyn 2011/12 | Coch/ Ambr/ Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| SMG01 | Llwybr Cyflogi Prentisiaid Ifanc - Datblygu a hybu prentisiaethau galwedigaethol ar draws y sir, gan fodelu a gweithredu'r dull gorau o gyflogi prentisiaid ifanc. | Bydd Model wedi ei gytuno ar gyfer prentisiaeth pobl ifanc yn y sector ynni. | GWYRDD | Cwmni Prentis Menai wedi ei sefydlu ac wedi recriwtio prentisiaid lleol, ac wedi adnabod lleoliad gyda chyflogwyr lleol. |
| SMG02 | Llwybr Cyflogi Prentisiaid Ifanc - Targedu sectorau twf ynni, yr economi werdd, adeiladu a gofal. | Byddwn wedi adnabod ein hanghenion recriwtio efo Gyrfa Cymru er mwyn cyrraedd at y cyflogwyr cywir. | GWYRDD | Cwmni Prentis Menai yn targedu'r sector peirianneg ac adeiladu yn y flwyddyn gyntaf i geisio asio gydag amserlen Ynys Ynni. |
| SMG03 | Llwybr Cyflogi Prentisiaid Ifanc - Lleoli prentisiaid efo busnesau lleol, yn ôl arbenigedd. | Bydd 18 prentis wedi eu lleoli gyda busnesau lleol. | GWYRDD | 11 Prentis wedi eu lleoli yn y flwyddyn gyntaf a 23 yn yr ail. O’r 34 hyn mae 15 ohonynt yn drigolion o Wynedd. Yn ategol mae 24 o’r lleoliadau wedi eu darparu gan fusnesau yng Ngwynedd. |
| SMG04 | Goresgyn rhwystrau i waith. | Trefniadau cydweithio a chyd-gynllunio wedi eu cytuno a'u sefydlu'n fewnol. Rhaglenni Cyflogaeth y Cyngor yn ymateb ac yn cyfrannu tuag at y Rhaglen Waith Newydd (Department for Work and Pensions). | GWYRDD | Trefniadau cyfeirio wedi cael eu sefydlu ymysg prosiectau European Social Fund (ESF) yn y Sir. Gwaith yn mynd rhagddo i gyd-weithio gyda darparwyr Rhaglen Waith. |

| Cyfeirnod | Gwelliant | Prif allbwn neu ddeilliant y cynllun neu brosiect ar gyfer y flwyddyn 2011/12 | Coch/ Ambr/ Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| SMG05 | Goresgyn rhwystrau i waith - rhieni sengl. | Bydd 239 o rieni sy'n economaidd anweithgar a di-waith wedi eu cefnogi i oresgyn rhwystrau i waith. | GWYRDD | Mae'r prosiect wedi gweithio gyda 320 o rieni sengl trwy amryw o weithgareddau i godi eu hyder, mentora a cheisio eu symud ar y llwybr tuag at waith neu hyfforddiant. |
| SMG06 | Goresgyn rhwystrau i waith - rhai mewn peryg o fod yn NEET (Not in Education, Employment or Training). | Bydd 30 o bobl ifanc mewn peryg o fod yn NEET wedi eu cefnogi gan weithgareddau'r cynllun. | GWYRDD | Prosiect wedi gweithio gyda 135 o bobl ifanc sydd wedi'i dadrithio yn yr ysgolion trwy gymorth anogwyr dysgu a gweithwyr ieuenctid ysgolion. |
| SMG07 | Goresgyn rhwystrau i waith - rhai gyda phroblemau iechyd meddwl. | Bydd 195 o unigolion â chyflwr iechyd meddwl wedi eu cefnogi e.e. trwy adfocatiaeth, eiriolaeth, cyngor incwm etc i oresgyn rhwystrau i waith.<br>Bydd 10 o rai efo problemau iechyd meddwl wed manteisio o hyfforddiant lefel 1 a 2 Open College Network. | GWYRDD | Prosiect wedi gweithio gyda 250 o unigolion gyda chyflwr iechyd meddwl trwy gynnig cefnogaeth i oresgyn rhwystrau i waith.<br>Mae wyth o bobl gyda phroblemau iechyd meddwl wedi manteisio ar hyfforddiant, gyda thri unigolyn arall bron iawn a gorffen eu cyrsiau.<br>36 o gyflogwyr wedi derbyn cymorth ac wedi derbyn cleientiaid ar leoliadau gwaith. Cyngor Gwynedd wedi arwyddo'r siarter cyflogwyr. |

| Cyfeirnod | Gwelliant | Prif allbwn neu ddeilliant y cynllun neu brosiect ar gyfer y flwyddyn 2011/12 | Coch/ Ambr/ Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| SMG08 | Goresgyn rhwystrau i waith - pobl ifanc (Llwyddo'n Lleol). | Bydd 50 o bobl ifanc 11-19 oed wedi eu cyflwyno i sector twf - ynni.<br>Bydd 10 Llysgennad Ifanc wedi eu penodi<br>Bydd 30 o bobl ifanc 11-19 NEET wedi eu cyflwyno i sector twf - diwydiannau creadigol.<br>Bydd pobl ifanc mewn 7 ysgol uwchradd yn manteisio o ddarpariaeth Modiwlau Works Skills. | GWYRDD | 51 o bobl ifanc wedi'i eu cyflwyno i'r sector twf ynni.<br>7 ysgol bellach yn cymryd rhan yn y modiwlau gyda phob ysgol yn targedu'r modiwlau tuag at wahanol grwpiau targed yn yr ysgol.<br>8 llysgennad ifanc wedi'i phenodi fel rhan o'r gweithgareddau.<br>30 o bobl ifanc NEET ac mewn peryg o fod yn NEET wedi'i dargedu a chymryd rhan mewn digwyddiad i'w cyflwyno i'r sector Diwydiannau Creadigol. |
| YD.1 | Yma Mae Pethau yn Digwydd - Sicrhau fod digwyddiadau proffil uchel cenedlaethol neu ryngwladol wedi eu denu neu sefydlu yng Ngwynedd. | Bydd yr ardal wedi elwa o ddau ddigwyddiad proffil uchel cenedlaethol neu ryngwladol. | GWYRDD | Dau ddigwyddiad proffil uchel gefnogir eleni, sef;<br>1. Digwyddiad y Fflam yn y Vaynol.<br>2. Digwyddiad Crochan a Ffwrnais (Cipio'r Castell / Men of Harlech).<br><br>Caiff Pedair eu cefnogi yn ystod 2012/13. |
| YD.2 | Yma Mae Pethau yn Digwydd - Cefnogi ardaloedd o fewn y sir i ddatblygu digwyddiadau efo'r potensial i gyfrannu at y ddelwedd o fwrlwm. | Bydd pump digwyddiad strategol gan yr ardaloedd wedi eu cynnal. | GWYRDD | Wedi cefnogi chwe digwyddiad strategol eleni yn lle'r targed o bump, sef;<br>1. Gwŷl Kaya.<br>2. Finns – Clwb Hwylio Pwllheli.<br>3. Llanc y llechi ac Etap Eryri.<br>4. Ras Wyddfa a Marathon Eryri.<br>5. Wakestock.<br>6. Ffair Wledig Gogledd Cymru. |

| Cyfeirnod | Gwelliant | Prif allbwn neu ddeilliant y cynllun neu brosiect ar gyfer y flwyddyn 2011/12 | Coch/ Ambr/ Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| YD.3 | Yma Mae Pethau yn Digwydd - Datblygu arbenigedd yr ardal ym maes trefnu a chynnal digwyddiadau, yn enwedig ymysg pobl ifanc a mentrau lleol. | Busnesau a mentrau Gwynedd yn dechrau mynegi'r farn fod y sir yn fan lle mae pethau'n digwydd.<br>Pobl ifanc yn ymwybodol o'r cyfleoedd iddyn nhw. | GWYRDD | Wedi derbyn barn y sector breifat drwy'r holiadur busnes. Ymgyrch hyrwyddo cyfleoedd wedi digwydd a gweithdai wedi eu cynnal. |
| EAS01 | Bwrsariaeth Swyddi Allweddol. | Bydd y mathau o swyddi proffesiynol sy'n anodd eu llenwi, y meysydd proffesiynol a'r angen gofodol wedi eu hadnabod trwy waith yr ymgynghorwyr. Bydd cytundeb ar y ffordd ymlaen er cefnogi pobl ifanc a chyflogwyr y sir. | AMBR | Y gwaith wedi llithro i 2012/13 yn dilyn trafodaethau gyda'r ymgynghorwyr er sicrhau bod y darn sgopio o'r gwaith yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer datblygiadau pellach i'r dyfodol. |
| PG.04 | Bywiocau a Gwella Delwedd Ganol Trefni - Rhesymoli'r Stryd Fawr. | Trefniadau ac amserlen ar gyfer comisiynu astudiaeth capasiti manwerthu wedi ei gadarnhau. | GWYRDD | Trefniadau cyd-weithio gyda'r Adran Gynllunio i gomisiynu astudiaeth capasiti manwerthu wedi eu cadarnhau. |
| PG.05 | Bywiocau a Gwella Delwedd Ganol Trefni - Defnydd Adeiladau Gwag Canol Trefi. | Bydd y prif opsiynau ar gyfer defnydd adeiladau gwag canol trefi wedi eu hadnabod ac adeiladau posib wedi eu hamlygu. | GWYRDD | Gwaith sgopio gwahanol opsiynau ar gyfer defnydd adeiladau gwag wedi ei baratoi. Arolwg manwl wedi ei gwblhau yn edrych ar holl adeiladau gwag canol trefi yng Ngwynedd. |

| Cyfeirnod | Gwelliant | Prif allbwn neu ddeilliant y cynllun neu brosiect ar gyfer y flwyddyn 2011/12 | Coch/ Ambr/ Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| PG.06 | Bywiocau a Gwella Delwedd Ganol Trefni - Gwella Delwedd ac amgylchedd canol trefi ar gyfer siopwyr ac ymwelwyr. | Bydd un canol tref wedi manteisio o sylw i wedd adeiladau trefol a chynlluniau tirweddu bychain. | GWYRDD | Gwelliannau wedi eu gweithredu fel rhan o Gynllun Ymateb i Ffordd Osgoi Porthmadog. |
| PG.07 | Bywiocau a Gwella Delwedd Ganol Trefni - Datblygu sector fanwerthu. | Bydd 12 o fusnesau canol trefi wedi eu cynorthwyo, a swyddi wedi eu diogelu. | GWYRDD | Busnesau canol trefi wedi eu cynorthwyo drwy'r Pecyn Cefnogaeth Sector Manwerthu ar draws Gwynedd. |
| PG.08 | Bywiocau a Gwella Delwedd Ganol Trefni - Marchnata a Hyrwyddo Canol Trefi. | Bydd busnesau canol trefi wedi manteisio o ymgyrch i hyrwyddo siopau lleol. | GWYRDD | Ymgyrch hyrwyddo siopau lleol wedi ei chynnal yn wasg gan dargedu cyfnod allweddol yn arwain at y Nadolig. |

## Plant a Phobl Ifanc

Mae’r cynlluniau yn y Maes Plant a Phobl Ifanc yn cyfrannu tuag at y canlyniad isod:

***Gwell profiadau a chyfleoedd teg i blant a phobl ifanc Gwynedd*.**

## Perfformiad y Maes Plant a Phobl Ifanc – Y Stori tu ôl i'r Perfformiad


Mae sicrhau fod teuluoedd bregus yn derbyn cefnogaeth amserol, integredig ac ataliol sydd wedi ei gynllunio'n effeithiol ar sail eu hanghenion yn flaenoriaeth i'r Cyngor. Er na lwyddwyd i sefydlu Tîm o Amgylch y Teulu i Wynedd yn ystod 2011/12, cwblhawyd gwaith cynllunio sylweddol ar y model a'r gweithdrefnau perthnasol gyda phartneriaid o'r byd addysg, iechyd, gofal cymdeithasol a'r Trydydd Sector. Mae'r model yn ei le bellach a bydd 'Gyda'n Gilydd' (sef yr enw a roddwyd ar y Tîm o Amgylch y Teulu) yn weithredol o fis Medi 2012 ymlaen.


Mae sicrhau fod plant a phobl ifanc dan amgylchiadau arbennig yn derbyn cyfleoedd a phrofiadau sydd wedi eu cynllunio'n effeithiol ar sail eu hanghenion yn flaenoriaeth arall i'r Cyngor. Yn ystod 2011/12, sefydlwyd tîm ar y cyd â Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr er mwyn darparu gwasanaeth integredig i blant a phobl ifanc anabl a gwael a'u teuluoedd. Yn ogystal, cwblhawyd Cynlluniau Peilot llwyddiannus o fewn tair Ysgol Uwchradd er mwyn lleihau'r nifer o bobl ifanc gyda phroblemau ymddygiad sy'n cael eu gwahardd fel sail ar gyfer ymestyn y dull yma o weithio i holl Ysgolion Uwchradd y Sir o Fedi 2012 ymlaen. O safbwynt plant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol, mae'r Cyngor wedi cychwyn ar y gwaith o gwblhau Adolygiad Strategol o'r maes. Llwyddodd y Cyngor i gwblhau 'Achos Dros Newid' cryf a pharatoi opsiynau amlinellol ar gyfer trawsnewid y ddarpariaeth i blant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol dros y blynyddoedd nesaf. Ond, ni lwyddwyd i roi cynlluniau ffisegol a chwricwlaidd mewn lle ar gyfer Ysgol Arbennig newydd i ardal Dwyfor a Meirionnydd oherwydd oedi ar ran Llywodraeth Cymru o ran gwneud penderfyniad ar gais y Cyngor am adnoddau o'r Rhaglen Ysgolion G21ain.


Mae sicrhau fod plant a phobl ifanc yn derbyn profiadau dysgu o safon mewn sefydliadau addysgol o'r math cywir hefyd yn flaenoriaeth i'r Cyngor. Mae'r Cyngor eisoes mewn dalgylchoedd blaenorol wedi creu cynlluniau fydd yn golygu sefydlu modelau arloesol ar gyfer darparu addysg yn y Sir. Yn ystod 2011/12, ystyriwyd opsiynau ar gyfer ad-drefnu rhan o ddalgylch Y Gader, Dolgellau. Yn y rhan yma o'r dalgylch - penderfynwyd cynnig cynllun fydd yn sicrhau presenoldeb darpariaeth addysg mewn ardal wledig a hynny ar ddau safle. Mae'r Cyngor yn awyddus i adlewyrchu dymuniadau lleol i fedru cynnal darpariaeth addysg mewn ardaloedd gwledig, gan sicrhau fod y ddarpariaeth hynny yn gynaliadwy a chadarn i'r dyfodol. Disgwylir penderfyniad terfynol ar y cynnig gan y Llywodraeth yn y misoedd nesaf. Yn ogystal, mae Partneriaeth Ddysgu Gwynedd ac Ynys Môn wedi cwblhau gwaith cynllunio manwl ar fodel a threfn ar gyfer comisiynu addysg a hyfforddiant ôl-16 yn seiliedig ar gydweithio ffurfiol rhwng Ysgolion Uwchradd, Colegau Addysg Bellach a'r ddau Awdurdod Addysg Leol.

Mae trawsnewid profiadau a chyfleoedd i bobl ifanc yn flaenoriaeth bwysig i'r Cyngor. Yn ystod 2011/12, gwelwyd cynnydd yn y nifer o achrediadau sy'n cael eu hennill gan bobl ifanc y Sir drwy waith y Gwasanaeth Ieuenctid ac eraill a disgwylir cynnydd pellach dros y blynyddoedd nesaf.

## Dangosyddion Allweddol Plant a Phobl Ifanc



## Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc

| Cyfeirnod | Gwelliant | Prif allbwn neu ddeilliant y cynllun neu brosiect ar gyfer y flwyddyn 2011/12 | Coch/ Ambr/ Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| PAPI1 | Prosiect Torri'r Cylch: Sefydlu modelau newydd ar gyfer cynllunio, comisiynu a darparu cefnogaeth i deuluoedd ar draws y continwwm o angen. | Eglurder yn ei le ynglŷn â'r gost i'r sector gyhoeddus o gefnogi teuluoedd bregus. Modelau yn eu lle ar gyfer darparu cefnogaeth integredig i deuluoedd ar draws y continwwm o angen.<br><br>30 o deuluoedd sydd mewn perygl o fod yn fregus wedi derbyn cefnogaeth integredig yn unol â'u hanghenion. | GWYRDD | Gwaith mapio costau trylwyr wedi ei gwblhau a gwaith gyda theuluoedd bregus wedi digwydd. |
| PAPI2 | Prosiect Torri'r Cylch: Cyflwyno model gweithredu newydd ar gyfer y 'Tîm o Amgylch y Plentyn' (TAP) yng Ngwynedd er mwyn cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd gydag amryfal anghenion yn unol ag egwyddorion rhaglen 'Teuluoedd yn Gyntaf' Llywodraeth Cynulliad Cymru. | Eglurder yn ei le ynglŷn â'r model gweithredu newydd ar gyfer y TAP yng Ngwynedd.<br><br>Gwasanaethau i blant, pobl ifanc a theuluoedd a gomisiynir drwy Gronfa Cymorth/Teuluoedd yn Gyntaf wedi eu cysoni â'r model gweithredu newydd ar gyfer y TAP.<br><br>36 o deuluoedd wedi derbyn cefnogaeth drwy'r TAP. | COCH | Oedi wedi digwydd wrth sefydlu'r tîm - targed diwygiedig o'r model yn weithredol erbyn Hydref 2012. |
| GCPL11 | Prosiect Trawsnewid Gwasanaeth i Blant a Phobl Ifanc Anabl a Gwael - Darparu gwasanaethau | Eglurder yn ei le ynglŷn â'r opsiynau ar gyfer darparu gwasanaethau ar y cyd i blant a phobl ifanc anabl a gwael a'u | GWYRDD | Bwrdd y Cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi derbyn y cytundeb cyfreithiol ac wedi ei arwyddo gan y ddau |

| Cyfeirnod | Gwelliant | Prif allbwn neu ddeilliant y cynllun neu brosiect ar gyfer y flwyddyn 2011/12 | Coch/ Ambr/ Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | integredig ar y cyd rhwng y Cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. | teuluoedd.<br>Cytundeb ffurfiol yn ei le rhwng y Cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ynglŷn â'r patrwm newydd o ddarparu gwasanaeth integredig i blant a phobl ifanc anabl a gwael a'u teuluoedd. | | gorff. Bydd y gwasanaeth integredig newydd yn cael ei lansio ar Ebrill 21ain 2012. |
| Add.03 | Trawsnewid Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc gyda phroblemau Ymddygiad - Cryfhau'r ddarpariaeth i blant a phobl ifanc bregus a'r rhai gyda phroblemau ymddygiadol o fewn ysgolion prif lif. | Patrymau newydd o ddarparu cefnogaeth i blant a phobl ifanc bregus a rhai gyda phroblemau ymddygiadol o fewn ysgolion prif lif wedi eu cynllunio. | GWYRDD | Trefn newydd yn weithredol ymhob ysgol uwchradd ym Medi 2012 a gweithlu ychwanegol ymhob ysgol. |
| Add.04 | Trawsnewid Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc gyda phroblemau Ymddygiad - Sefydlu darpariaeth newydd er mwyn darparu cefnogaeth i blant a phobl ifanc gydag anghenion emosiynol a chymdeithasol dwys (Coed Menai). | Pecynnau ariannu ar gyfer sefydlu darpariaeth newydd wedi ei gytuno. | GWYRDD | Darpariaeth newydd yn ei le ar gyfer Medi 2012 (Gwynedd yn unig). |
| Add.01 | Trawsnewid Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol - Trawsnewid darpariaeth a gynigir i blant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol drwy sefydlu model o ddarparu | Eglurder yn ei le ynglŷn â'r pecynnau ariannu. | GWYRDD | Briff ar gyfer yr Adolygiad Strategol wedi ei lunio a rhan 1af yr Adolygiad wedi ei gwblhau, sy'n cynnwys y pecyn ariannu. |

| Cyfeirnod | Gwelliant | Prif allbwn neu ddeilliant y cynllun neu brosiect ar gyfer y flwyddyn 2011/12 | Coch/ Ambr/ Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | ar gyfer disgyblion gydag ADY ar sail arfer dda. | | | |
| Add.02 | Trawsnewid Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol - Cynllunio i godi adeilad newydd gyda chyfleusterau modern safonol mewn lleoliad cyfleus yn ardal Meirion / Dwyfor (Ysgol Hafod Lon). | Cynlluniau ffisegol a chwricwlaidd yn eu lle ar gyfer yr ysgol arfaethedig. | COCH | Y bid yn llwyddiannus - gweithredu'r cynllun yn ddibynnol ar raglen y Cyngor mewn perthynas â'r rhaglen trefniadaeth ysgolion. Er bod yr uchod wedi ei sicrhau, nid yw'r cynlluniau ffisegol a chwricwlaidd llawn wedi eu datblygu. |
| Add.05 | Prosiect Trefniadaeth Addysg Gynradd ac Uwchradd - Creu Amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf i blant a phobl ifanc ac athrawon y Sir trwy wella cyfleusterau ac adeiladau, a sicrhau bod ysgolion wedi eu cynllunio i ymateb i'r newid mewn dulliau dysgu ac addysgu. | Penderfyniad wedi ei wneud gan y Cyngor ynglŷn â dyfodol trefniadaeth ysgolion yn ardal Y Berwyn, Bala. | GWYRDD | Penderfynwyd sefydlu Campws Gydol Oes yn y Bala a chymeradwyo'r cynnig i gau Ysgol y Parc, gan ddarparu lleoedd i blant yn y dalgylch yn Ysgol O. M. Edwards, Llanuwchllyn, ar ôl cwblhau gwaith uwchraddio ar yr Ysgol. |
| | | Cytundeb yn ei le ynglŷn ag opsiynau ar gyfer trefniadaeth addysg yn nalgylch Y Gader. | AMBR | Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol tan 25 Tachwedd ar gyfer rhan ddwyreiniol y dalgylch gyda'r broses ddemocrataidd yn dilyn hynny, a'r cynigion wedi eu cyflwyno i'r gweinidog addysg.<br>Bydd ail ran y dalgylch yn cael ei hadolygu. |
| | | Trefniadau mewn lle ar gyfer rhoi sylw i gau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad grwpiau penodol o ddysgwyr a gwella sgiliau pobl ifanc. | GWYRDD | Trefniadau ar gyfer adrodd ar gyrhaeddiadau grwpiau penodol o blant yn weithredol. |

| Cyfeirnod | Gwelliant | Prif allbwn neu ddeilliant y cynllun neu brosiect ar gyfer y flwyddyn 2011/12 | Coch/ Ambr/ Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| EAS02 | Trawsnewid darpariaeth addysg a hyfforddiant ôl-16 er mwyn rhoi mynediad i bobl ifanc at fwy o gyrsiau academaidd a galwedigaethol a'u paratoi ar gyfer y byd gwaith drwy wneud yn siŵr eu bod yn cael eu harfogi efo'r mathau cywir o sgiliau ar gyfer cyflogaeth, yn enwedig o fewn yr economi leol. | Eglurder yn ei le ynglŷn â chynaladwyedd ariannol y model sy'n cael ei ffafrio ar hyn o bryd. | AMBR | Eglurder am gynaladwyedd y model ariannol bron yn ei le ond angen cadarnhad o rai ffigurau cyn cadarnhau hynny'n derfynol. |
| GI.01 | Prosiect Trawsnewid Profiadau a Chyfleoedd i Bobl Ifanc - Darparu cyfleoedd dysgu anffurfiol i bobl ifanc a'r cyfle i ennill achrediadau cydnabyddedig. | Gwaith paratoadol yn unig.<br><br>120 o bobl ifanc wedi ennill Gwobr Dug Caeredin Efydd, Arian ac Aur.<br>150 o bobl ifanc bregus wedi ennill Cymhwyster Agored Cymru.<br>150 o bobl ifanc wedi ennill gwobr Cyflawniad Ieuenctid. | | Mae darpariaeth Gwobr Dug Caeredin yn weithredol ar draws y Sir erbyn hyn. Mae dros 300 o bobl ifanc wedi dechrau ar y wobr ers mis Ebrill diwethaf. Ar hyn o bryd mae 231 yn gweithio tuag at eu Gwobr Dug Caeredin ac rydym yn rhagweld y bydd 40+ yn cwblhau eu gwobr yn dilyn cwblhau alldaith yn ystod yr wythnosau nesaf.<br><br>Dros 150 o Gymhwyster Agored Cymru wedi eu cwblhau.<br><br>Ni fydd 150 o bobl ifanc wedi cwblhau Gwobr Cyflawniad Ieuenctid cyn diwedd Mawrth gan fod angen 60 awr i gwblhau'r wobr. 60 wedi cwblhau'r wobr yn 2011/12. |

| Cyfeirnod | Gwelliant | Prif allbwn neu ddeilliant y cynllun neu brosiect ar gyfer y flwyddyn 2011/12 | Coch/ Ambr/ Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| GI.02 | Prosiect Trawsnewid Profiadau a Chyfleoedd i Bobl Ifanc - Cefnogi pobl ifanc i wirfoddoli. | Dim deilliant yn 2011/12. | | Rydym wedi cael caniatâd gan y Bwrdd Trawsnewid Profiadau Pobl ifanc i symud y cynllun yma i'r flwyddyn nesaf. |
| GI.03 | Prosiect Trawsnewid Profiadau a Chyfleoedd i Bobl Ifanc - Sicrhau darpariaeth rhwydwaith ieuenctid ar sail 5 dalgylch. | Adnodd Gweithiwr Ieuenctid ar gael ym mhob dalgylch i weithio gydag Ysgolion Uwchradd. | GWYRDD | Adnodd ym mhob un o’r 5 dalgylch. |

## Dangosyddion Eraill Plant a Phobl Ifanc

| Dangosydd | Gwaelodlin 2010 / 11 | Perfformiad 2011 / 12 |
|---|---|---|
| Y gwahaniaeth rhwng cyrhaeddiad disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a disgyblion sydd ddim yn derbyn prydau ysgol am ddim yng Nghyfnod Allweddol 2 a 3. | CA2 - 12.13%<br>CA3 - 34.26% | CA2 - 26.83%*<br>CA3 - 31.24%* |
| Canran y plant 3 oed mewn ardaloedd Dechrau'n Deg sydd wedi gwneud cynnydd datblygiadol ers eu hasesiad SOGS (Atodlen o Sgiliau Tyfu) yn 2 oed | 72.4% | Adrodd yn Medi 2012 |
| Canran y cyfeiriadau i'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis | 49.13% | 39.10% |
| Canran y disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol sy'n llwyddo i ennill y Dangosydd Pwnc Craidd yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 | CA2 – 42.1%<br>CA3 – 23.1% | CA2 - 48%*<br>CA3 - 36%* |
| Nifer cyfartalog y diwrnodau a gollwyd o'r ysgol gan bob gwaharddiad cyfnod penodol fesul 1,000 o ddisgyblion | 129.01 | 103.9* |
| Amrediad maint dosbarthiadau mewn Ysgolion Cynradd | 5 i 33 | 5 i 34* |
| % y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant (Blwyddyn 11) | 3.6% | 3.6%* |

* Data o'r Blwyddyn Ysgol Medi 2010 - Awst 2011

## Amgylchedd ac Isadeiledd

Bwriad y cynlluniau yn y maes Amgylchedd ac Isadeiledd yw cyfrannu at y canlyniadau isod:

***Amgylchedd sy'n ddiogel a chynaliadwy***

***Cyflenwad o dai addas yn y Sir***

***Cysylltiadau hwylus a defnyddiol***

## Perfformiad yn y maes Amgylchedd ac Isadeiledd – Y Stori tu ôl i'r Perfformiad

Gweledigaeth y Cyngor yn y maes Amgylchedd ac Isadeiledd yw hybu amgylchedd sy'n ddiogel a chynaliadwy, gyda thai addas a chysylltiadau hwylus a defnyddiol i Wynedd a'i thrigolion yng ngwyneb newidiadau yn lleol ac yn y byd o'n cwmpas. Datblygwyd y prosiectau sy'n ymddangos o fewn y rhaglen er mwyn ymateb i'r weledigaeth hon mewn modd trawsnewidiol.

Gyda'r bwriad o hybu **amgylchedd sy'n ddiogel a chynaliadwy** mae gwaith yn parhau yn y maes lleihau allyriadau carbon a llwyddodd *Cynllun Lleihau Ôl Troed Carbon Gwynedd a Chynllun Rheoli Carbon y Cyngor* i sicrhau gostyngiadau o fewn sefydliadau cyhoeddus ym meysydd ynni, trafnidiaeth a gwastraff. Bu cynnydd mewn lefelau ailgylchu/compostio o ganlyniad i waith y prosiect *Strategaeth Wastraff* a sefydlwyd trefniadau o'r newydd ar gyfer casglu gwastraff bwyd yn wythnosol a chasglu deunyddiau ailgylchu/compostio masnachol.


Mae sicrhau **cyflenwad o dai addas yn y Sir** yn bwysig er mwyn galluogi pobl i aros o fewn eu cymunedau. Llwyddwyd i ddod a 48 o dai o'r stoc dai presennol yn ôl i ddefnydd ynghyd â darparu 56 o unedau tai fforddiadwy. Ar yr un pryd fe lansiwyd cynllun benthyciadau rhyddhau ecwiti ac aeth gwaith rhagddo i sefydlu cynllun benthyciadau blaendal morgeisi i brynwyr tro cyntaf ac edrych ar ddulliau mwy effeithiol o ddod a thai gwag yn ôl i ddefnydd.


Mewn ardal wledig a gwasgaredig fel Gwynedd mae **cysylltiadau hwylus a defnyddiol** yn bwysig iawn ar gyfer sicrhau mynediad i wasanaethau. Yn anffodus nid oedd modd gwireddu nifer o'r buddiannau a nodwyd ar gyfer y prosiect *Cludiant Cymunedol* ac o ganlyniad i ail edrych ar y modd mwyaf effeithiol i ymyrryd yn y maes bydd cwmpas y prosiect yn ehangu i edrych ar gludiant integredig yn ei gyfanrwydd ar gyfer y dyfodol.


Ar y cyfan bu'r rhaglen yn llwyddiannus gan wireddu 24 allan o 33 budd yn ystod 2011/12. Dylid nodi hefyd fod cynnydd sylweddol wedi ei wneud yn erbyn 6 budd arall ac y byddant yn cael eu gwireddu yn ystod 2012/13.


## Dangosyddion Allweddol Amgylchedd ac Isadeiledd

| Dangosyddion | Gwaelodlin 2010/11 | Targed 2011/12 | Perfformiad 2011/12 |
|---|---|---|---|
| Canran gwastraff bwrdeistrefol a gesglir sydd yn cael ei; Ail ddefnyddio, Ail gylchu neu Compostir | 44.70% | 48% | 46.71% |
| Lleihad yr allyriadau carbon y Cyngor | 4.06% | 14.00% | 16.70% |
| Nifer tai gwag hir dymor yn y sir [6 mis a drosodd] wedi dod nôl i ddefnydd | 59 | 40 | 48 |
| Nifer o unedau fforddiadwy ychwanegol a sicrhawyd i Wynedd (boed yn dai o'r newydd neu ddefnydd o eiddo presennol) | 41.42 | 53 | 56 |


Canran gwastraff bwrdeistrefol a gesglir sydd yn cael ei; Ail ddefnyddio, Ail gylchu neu Gompostir
49.00%
48.00%
47.00%
46.00%
45.00%
44.00%
43.00%
Perfformiad 2010/11
Targed 2011/12
Perfformiad 2011/12


Lleihad yr allyriadau carbon y Cyngor
18.00%
16.00%
14.00%
12.00%
10.00%
8.00%
6.00%
4.00%
2.00%
0.00%
Perfformiad 2010/11
Targed 2011/12
Perfformiad 2011/12


Nifer tai gwag hir dymor yn y sir [6 mis a drosodd] wedi dod nôl i ddefnydd
70
60
50
40
30
20
10
0
Perfformiad 2010/11
Targed 2011/12
Perfformiad 2011/12


Nifer o unedau fforddiadwy ychwanegol a sicrhawyd i Wynedd (boed yn dai o'r newydd neu ddefnydd o eiddo presennol)
60
50
40
30
20
10
0
Perfformiad 2010/11
Targed 2011/12
Perfformiad 2011/12

## Cynlluniau Amgylchedd ac Isadeiledd

| Cyfeirnod | Gwelliant | Prif allbwn neu ddeilliant y cynllun neu brosiect ar gyfer y flwyddyn 2011/12 | Coch/ Ambr/ Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| AaCh1 | Cynllun Lleihau Ôl Troed Carbon Gwynedd - Ffrwd Gwaith Ynni. | Targed o leihad o 12% mewn allyriadau CO2 sy'n deillio o ddefnydd ynni yn adeiladau annomestig sefydliadau'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol wedi ei gyrraedd. | GWYRDD | Lleihad o 17.23% wedi bod mewn allyriadau CO2 sy'n deillio o ddefnydd ynni mewn adeiladau annomestig y Bwrdd Gwasanaeth Lleol yn ystod 2011/12 o'i gymharu â blwyddyn waelodlin 2005/06. |
| | | Bydd cynllun gweithredu lleihau ôl troed carbon y sector gymunedol a busnes wedi ei ddatblygu ac wedi ei fabwysiadu. | AMBR | Er bod cynllun gweithredu wedi ei ddatblygu nid yw'r cynllun wedi ei fabwysiadu yn ffurfiol o ganlyniad i newid cyfeiriad yn y gwaith a'r pryder y gallai ddyblygu gwaith sydd eisoes yn digwydd yn y maes. O ganlyniad, bydd y cynllun yn debygol o roi mwy o bwyslais ar yr elfennau cydlynu a rhwydweithio a disgwylir y bydd yn cael ei lansio yn ystod 2012/13. |
| | Cynllun rheoli carbon y Cyngor. | Sicrhau lleihad o 14% yn allyriadau carbon y Cyngor. | GWYRDD | Allyriadau ar gyfer y flwyddyn i lawr 16.7%. |

| Cyfeirnod | Gwelliant | Prif allbwn neu ddeilliant y cynllun neu brosiect ar gyfer y flwyddyn 2011/12 | Coch/ Ambr/ Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| PB48 | Strategaeth Wastraff - Lleihau gwastraff a chynyddu lefelau ailgylchu/compostio. | Bydd canran y gwastraff trefol a gesglir:<br>▪ ailgylchu – 23%.<br>▪ gompostio – 25%. | AMBR | Ail ddefnyddio – 0.5%.<br>Ailgylchu – 22.13%.<br>Compostio – 24.08%.<br><br>Bu rhywfaint o oedi yn cyflwyno'r gwasanaeth compostio ar draws y Sir o ganlyniad i'r ffaith y bu'n rhaid aros am gerbydau pwrpasol. |
| PB51<br>PB15 | Strategaeth Wastraff - Lleihau gwastraff a chynyddu lefelau ailgylchu/compostio. | Bydd cynnydd mewn lefelau ailgylchu/compostio masnachol o waelodlin o 11.5% (amcangyfrif 10/11) i 20%. | AMBR | 17% o wastraff masnachol yn cael ei ailgylchu/compostio.<br><br>Bu oediad mewn derbyn cerbydau pwrpasol a effeithiodd ar yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r gwasanaeth ar draws y Sir o rai wythnosau. |
| | | Bydd targedau wedi eu sefydlu ar gyfer 2012/13 a 2013/14 yn seiliedig ar brofiadau trawsnewid y ddarpariaeth ailgylchu/compostio masnachol. | GWYRDD | Targedau ar gyfer ailgylchu/compostio masnachol wedi eu sefydlu<br>▪ 2012/13 – 40%.<br>▪ 2013/14 – 50%. |

| Cyfeirnod | Gwelliant | Prif allbwn neu ddeilliant y cynllun neu brosiect ar gyfer y flwyddyn 2011/12 | Coch/ Ambr/ Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| PB10 | Strategaeth Wastraff - Lleihau gwastraff a chynyddu lefelau ailgylchu/compostio. | Bydd ymgyrchoedd wedi eu cynnal mewn ardaloedd penodol lle mae ffigyrau ailgylchu a chompostio yn isel. | GWYRDD | Gwaith parhaol yn mynd yn ei flaen i adnabod ardaloedd lle mae ffigyrau ailgylchu a chompostio yn isel.<br>▪ Ymgyrch Llanfrothen; cynnydd o 61% i 64% mewn lefelau ailgylchu/compostio.<br>▪ Ymgyrch Ysgubor Goch/Maes Barcer; cynnydd o 28% i 30% mewn lefelau ailgylchu/compostio.<br>▪ Ymgyrch y Ffor; cynnydd o 38% i 55% mewn lefelau ailgylchu/compostio.<br>▪ Ymgyrch sylweddol 'Hei Pync Sortio dy Junc' aml-asiantaethol, Balchder Bangor Prifysgol yn weithredol.<br>▪ Ymgyrchoedd penodol er mwyn cynyddu ffigyrau wedi eu cychwyn yn ardaloedd Chwilog, Blaenau Ffestiniog a Llanrug. |
| | | Bydd trefniadau casglu gwastraff bwyd wythnosol wedi eu cyflwyno ar draws y Sir. | GWYRDD | Gwasanaeth bwyd wythnosol yn weithredol bellach yn y tair ardal heblaw am fflatiau, pwyntiau casglu a chylchdeithiau cul Arfon. |
| | | Bydd ymgyrch codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo defnydd o'r casgliadau bwyd wythnosol (sydd i gyd-fynd hefo cyflwyno'r trefniadau) wedi ei gwblhau. | GWYRDD | Ymgyrch codi ymwybyddiaeth wedi ei chynnal law yn llaw hefo gwaith i gyflwyno'r gwasanaeth dros y Sir. |

| Cyfeirnod | Gwelliant | Prif allbwn neu ddeilliant y cynllun neu brosiect ar gyfer y flwyddyn 2011/12 | Coch/ Ambr/ Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| YM6 | Rheoli Risg Llifogydd - Adnabod y risgiau, codi ymwybyddiaeth a llunio cynlluniau i ymateb i lifogydd mewn cymunedau. | Bydd cyfeiriad ar gyfer y dyfodol wedi ei adnabod yn dilyn asesiad o lwyddiant Cynllun Peilot Pwllheli. | GWYRDD | Asesiad wedi ei gynnal o Brosiect Peilot Pwllheli a chadarnhad wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru mai dyma'r dull o weithredu y dylid ei fabwysiadu ar gyfer rheoli risg llifogydd mewn ardaloedd eraill. |
| | | Bydd cyfrifoldebau am weithredu gofynion ac arwain ar y Ddeddf Llifogydd a Dŵr 2010 o fewn y Cyngor yn glir. | AMBR | Grŵp swyddogion wedi ei sefydlu i arwain ar y gwaith hefo swyddogion allweddol o Adrannau sy'n fwyaf tebygol o gael eu heffeithio ond dim cytundeb eto ar gyfrifoldebau am weithredu'r gofynion penodol. |
| T6 | Tai Fforddiadwy i'w prynu a'u rhentu – Cydweithio gyda chymdeithasau tai cofrestredig i ddarparu unedau fforddiadwy anghenion cyffredinol. | Bydd cytundeb ar flaenoriaethau dyraniad Grant Tai Cymdeithasol i Wynedd. | GWYRDD | Cytundeb yn ei le a gwariant o'r Grant Tai Cymdeithasol yn weithredol yn unol â'r cytundeb hynny. |
| T7 | Tai Fforddiadwy i'w prynu a'u rhentu. | Bydd 53 o unedau tai fforddiadwy wedi eu darparu o ganlyniad i gydweithio gyda chymdeithasau tai cofrestredig, prynwyr tro cyntaf i'r farchnad dai, perchnogion cartrefi, perchnogion tai gwag, | GWYRDD | 56 tŷ fforddiadwy wedi'i gyflenwi gyda 33 drwy'r Cymdeithasau Tai a 23 drwy ddatblygwyr preifat. |

| Cyfeirnod | Gwelliant | Prif allbwn neu ddeilliant y cynllun neu brosiect ar gyfer y flwyddyn 2011/12 | Coch/ Ambr/ Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| T8 | Tai Fforddiadwy i'w prynu a'u rhentu – Rheolaeth ar dai haf. | Bydd cynllun gwaith wedi ei sefydlu ar gyfer arwain ar ymgyrch lobïo genedlaethol i gael gwell rheolaeth ar y nifer o dai haf yn y Sir. | GWYRDD | Cynllun gwaith wedi ei lunio a'i gytuno gan y Bwrdd Rhaglen Amgylchedd ac Isadeiledd. |
| T9 | Tai Fforddiadwy i'w prynu a'u rhentu – Adolygiad o Ddatganiad Cyflenwi Tai Fforddiadwy Cyngor Gwynedd 2007-11. | Bydd adolygiad wedi ei gynnal o Ddatganiad Cyflenwi Tai Fforddiadwy Cyngor Gwynedd 2007-11. | GWYRDD | Gwaith wedi ei gwblhau. |
| GCT01 | Tai Gwag Nol i Ddefnydd -<br>▪ Cynlluniau benthyciadau.<br>▪ Mesurau gorfodaeth.<br>▪ Cynlluniau grantiau.<br>▪ Mesurau anogaeth. | Bydd Cynllun Benthyciadau yn ei le. | GWYRDD | Cynllun benthyciadau rhyddhau ecwiti wedi derbyn sêl bendith y Cyngor ac yn cael ei ddatblygu. Ymchwil i opsiynau eraill ar gyfer tai gwag wedi arwain at dderbyn sêl bendith y Cyngor ym Mawrth 2012 i symud ymlaen i ddatblygu cynllun benthyciadau blaendal morgeisi i brynwyr tro 1af yn cynnwys tai gwag. |
| | | Bydd 40 o dai gwag wedi dod yn ôl i ddefnydd, gan ddefnyddio ystod o wahanol fentrau / weithgareddau. | GWYRDD | 48 uned wag hir dymor wedi eu dychwelyd yn ôl i ddefnydd yn ystod 2011-12 drwy ystod o ddulliau.. Bwrdd Rhaglen Amgylchedd ac Isadeiledd wedi cytuno i gyfeirio arian Cynllun 3 Blynedd (maes tai) tuag at benodi swyddog tai gwag ychwanegol i symud yr agenda ymhellach ymlaen. |

| Cyfeirnod | Gwelliant | Prif allbwn neu ddeilliant y cynllun neu brosiect ar gyfer y flwyddyn 2011/12 | Coch/ Ambr/ Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | Bydd opsiynau eraill ar gyfer dod a thai gwag hir dymor yn ôl i ddefnydd wedi eu hadnabod yn dilyn cwblhau gwaith ymchwil. | GWYRDD | Gwaith ymchwil parhaol yn mynd yn ei flaen i edrych ar wahanol opsiynau o ran dod a thai gwag yn ôl i ddefnydd. |
| | Cynllun Ol-Troed Carbon Tai – Yma i Helpu. | Bydd 64 allan o'r 71 ward yng Ngwynedd wedi eu targedu gan y Cynllun Yma i Helpu. | GWYRDD | Cynllun Yma i Helpu wedi ei gynnig mewn 66 Ward yng Ngwynedd. |
| T3 | Cynllun Ol-Troed Carbon Tai - Mapio gweithgaredd effeithlonrwydd ynni. | Bydd system mapio GIS wedi ei chreu ar gyfer adnabod pa ardaloedd sydd wedi elwa o waith arbed ynni/carbon yn y gorffennol yn ogystal â'r ardaloedd sydd gyda'r angen mwyaf ar gyfer y dyfodol. | GWYRDD | Gwaith mapio wedi ei gwblhau gan yr Uned Ymchwil a Uned TG mewnol. |
| T4 | Cynllun Ol-Troed Carbon Tai - Manteisio ar gyfleoedd amrywiol. | Bydd trigolion Gwynedd yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael gyda'r "Feed In Tariff (FIT)". | GWYRDD | Ymgyrch er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sy'n deillio o daliadau FIT wedi ei chynnal gydag erthyglau yn ymddangos mewn cyhoeddiadau megis Newyddion Gwynedd. |
| | | Bydd landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig lleol yn ymwybodol o'r cyfleoedd ar gyfer arbed ynni/carbon ac yn manteisio arnynt. | GWYRDD | Gwybodaeth o safbwynt y cyfloed sydd ar gael i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig wedi ei rannu trwy'r Is-grŵp ôl troed carbon tai. |

| Cyfeirnod | Gwelliant | Prif allbwn neu ddeilliant y cynllun neu brosiect ar gyfer y flwyddyn 2011/12 | Coch/ Ambr/ Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | Bydd 75 o osodiadau ynni adnewyddol wedi eu gwneud o ganlyniad i daliadau 'FIT' a 'RHI'. | GWYRDD | Y gwaith wedi hen basio'r targed gyda 761 o osodiadau wedi eu gwneud (hyn rhannol oherwydd y rhuthr i gwblhau gwaith cyn y newid yn y tariff). |
| T4 | Cynllun Ol-Troed Carbon Tai - Manteisio ar gyfleoedd amrywiol. | Bydd targed wedi ei sefydlu ar gyfer y nifer o osodiadau ynni adnewyddol sydd wedi eu gwneud o ganlyniad i daliadau 'FIT' a 'RHI' ar gyfer y cyfnod 2012 – 2014. | GWYRDD | Targed o 150 o osodiadau wedi ei sefydlu ar gyfer 2012/13. |
| T5 | Cynllun Ol-Troed Carbon Tai - ARBED 2. | Bydd penderfyniad wedi ei wneud o safbwynt pa brosiectau ddylai fod yn rhan o gynnig/gynigion Gwynedd ar gyfer ARBED 2. | GWYRDD | 2 ardal wedi eu hadnabod (Tanygrisiau a Nantlle) a cheisiadau wedi eu cyflwyno ar eu cyfer ar gyfer ARBED 2, Cais Nantlle wedi bod yn llwyddiannus tra bu cais Tanygrisiau yn aflwyddiannus. |
| | | Bydd Rhaglen Waith ar gyfer yr Is Grŵp Monitro Ôl Troed Carbon Tai wedi ei datblygu a'i mabwysiadu. | AMBR | Rhaglen waith drafft wedi ei datblygu ond heb ei mabwysiadu oherwydd yr oedi a fu ynghylch gwneud penderfyniad ar geisiadau ARBED 2 gan Lywodraeth Cymru. |
| RH03 | Cludiant Cymunedol - Cludiant Cymunedol dibynadwy a hygyrch. | Bydd trefn fonitro leol wedi ei sefydlu ar gyfer mesur bodlonrwydd gyda darpariaeth cludiant yn y Sir. | GWYRDD | Trefn fonitro leol ar gyfer mesur bodlonrwydd gyda darpariaeth cludiant cymunedol wedi ei sefydlu. |

| Cyfeirnod | Gwelliant | Prif allbwn neu ddeilliant y cynllun neu brosiect ar gyfer y flwyddyn 2011/12 | Coch/ Ambr/ Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | Bydd contractau cludiant cymunedol gydag amodau o safbwynt mynediad i'r anabl a chynnal a chadw'r cerbydau. | GWYRDD | Holl ddogfennau tendr a chontractau cludiant cymunedol a ddynodir yn cynnwys amodau o safbwynt mynediad i'r anabl a chynnal a chadw cerbydau. |
| RH03 | Cludiant Cymunedol - Cludiant Cymunedol dibynadwy a hygyrch. | Bydd ceisiadau am ddarpariaeth cludiant cymunedol yn cael eu gwireddu mewn 88% o achosion. | COCH | Systemau cofnodi ddim yn aeddfed o fewn darparwyr cludiant cymunedol sy'n golygu nad yw data yn gwbl ddibynadwy.<br>Data sydd ar gael ar gyfer 11/12 yn dangos bod 83.33% o geisiadau wedi eu gwireddu. |
| | | Byddwn yn deall bodlonrwydd defnyddwyr o safbwynt darpariaeth cludiant lleol ar gyfer y flwyddyn. | AMBR | Gwaith wedi ei ddechrau i geisio canfod bodlonrwydd defnyddwyr cludiant cymunedol yn y Sir ond mwy o waith i'w wneud er mwyn deall y gwir sefyllfa. |
| | | Bydd dau gytundeb cludiant cymunedol newydd wedi eu dynodi. | GWYRDD | Dau gytundeb "Darpariaeth ar alw" wedi eu dynodi ar gyfer Croesor a Rhyd. |
| | | Niferoedd o deithiau a wneir gan bobl yn defnyddio darpariaeth cludiant cymunedol wedi cynyddu i 10,500. | COCH | Niferoedd o deithiau a wnaed gan ddefnyddio Cludiant Cymunedol yn is na'r targed disgwyliedig gyda 7,009 o siwrnai. |
| | | Byddwn wedi sefydlu gwaelodlin a dangosyddion allweddol o safbwynt trafnidiaeth integredig. | COCH | Heb eu sefydlu. Hyn yn debygol o dderbyn sylw yn ystod 2012/13 gan ei bod yn debygol y bydd y prosiect yn newid cyfeiriad i ganolbwyntio mwy ar drafnidiaeth integredig. |

## Dangosyddion Eraill y maes Amgylchedd ac Isadeiledd

| Dangosyddion | Targed 2011/12 | Perfformiad 2011/12 |
|---|---|---|
| Canran y gwastraff bwrdeistrefol a gesglir:<br>(i) ac a ailgylchir<br>(ii) a gompostir neu ei drin yn fiolegol<br>(iii) Ail ddefnyddio | <br>23%<br>25% | <br>22.13%<br>24.08%<br>0.50% |
| Canran gwastraff bwrdeistrefol a gesglir sydd yn cael ei; Ail ddefnyddio, Ail gylchu neu Compostir | 48% | 46.71% |
| Canran lefelau ailgylchu/compostio masnachol | 20% | 17% |
| Lleihad ôl-troed carbon y gymuned yng Ngwynedd<br>(i) anheddau<br>(ii) adeiladau di-annedd<br>(iii) busnes<br>(iv) teithiau busnes<br>(v) gwastraff | (i) 3%<br>(ii) 12%<br>(iii) 3%<br>(iv) Dim targed 2011/12<br>(v) Dim targed 2011/12 | (i) Data 2010 = Cynnydd o 6.88% o 2009 ('Local and Regional CO2 Emissions Estimates for 2005-2010', Cynhyrchwyd gan AEA i DECC http://www.decc.gov.uk/en/content/cms/statistics/climate_stats/gg_emissions/laco2/laco2.aspx<br>(ii) 17.23<br>(iii) Data 2010 = Cynnydd o 7.89% o 2009 ('Local and Regional CO2 Emissions Estimates for 2005-2010', Cynhyrchwyd gan AEA i DECC http://www.decc.gov.uk/en/content/cms/statistics/climate_stats/gg_emissions/laco2/laco2.aspx<br>(iv) 8.01% (Noder mai data 2010/11 sydd wedi ei gynnwys ar gyfer Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn y ffigwr hwn gan nad yw data 11/12 wedi ei dderbyn eto)<br>(v) Gostyngiad o 570 tunnell o CO2 |
| Arbedion refeniw blynyddol yn sgil lleihau ôl-troed carbon | Dim targed 2011/12 | Heb ei fesur yn 2011/12. |

| Dangosyddion | Targed 2011/12 | Perfformiad 2011/12 |
|---|---|---|
| | | |
| Lleihad yr allyriadau carbon y Cyngor | 14.00% | 16.70% |
| Dealltwriaeth y gymuned o'r risg llifogydd<br><br>Nifer tai gwag hirdymor yn y sir [6 mis a drosodd] wedi dod nôl i ddefnydd | Dim targed 2011/12<br><br>40 | Gwaelodlin i'w sefydlu yn ystod 12/13 ac yna mesuriad cyson i'w gynnal er mwyn mesur cynnydd.<br><br>48 |
| Nifer o unedau fforddiadwy ychwanegol a sicrhawyd i Wynedd (boed yn dai o'r newydd neu ddefnydd o eiddo presennol) | 53 | 56 |
| Gosodiadau ynni adnewyddol domestig sydd wedi derbyn "Feed in Tariff (FIT)/ 'Renewable Heat Incentive (RHI)' | 75 | 761<br><br>Targed o 150 wedi ei osod ar gyfer 2012/13. |
| Trafnidiaeth gymunedol ddibynadwy sy'n hygyrch ar draws y Sir. | 88% o geisiadau am ddarpariaeth cludiant cymunedol yn cael eu gwireddu ar draws y Sir. | Systemau cofnodi ddim yn aeddfed o fewn darparwyr cludiant cymunedol sy'n golygu nad yw data yn gwbl ddibynadwy.<br><br>Dengys ymateb i holiaduron a gylchredwyd i ddefnyddwyr cludiant cymunedol yn Hydref 2011 bod 83.33% o geisiadau am ddarpariaeth cludiant cymunedol yn cael eu gwireddu ar draws y Sir. |
| Niferoedd o deithiau a wneir gan ddefnyddio cludiant cymunedol. | 10,500 | 7,009 |
| Addasrwydd trafnidiaeth gymunedol i bobl gydag anableddau | Dim targed 2011/12 | Heb ei fesur yn 2011/12. |

## Trawsffurfio

Bwriad y cynlluniau yn y maes Trawsffurfio yw cyfrannu at y canlyniad isod:

***Cyngor ar ei orau sydd yn cyflawni i bobl Gwynedd heddiw ac yfory***

## Perfformiad yn y maes Trawsffurfio – Y Stori tu ôl i'r Perfformiad

Gwelwyd cynnydd da o fewn y rhaglen ble bu'r Cyngor yn llwyddiannus yn cyflawni rhan helaeth o'r buddion oedd wedi eu nodi ar gyfer 2011/12. Ni welwyd y cynnydd disgwyliedig ym mhob prosiect, ond dylid nodi bydd gwaith ar y gweithgareddau hyn yn parhau yn ystod y flwyddyn 2012/13.

Cafwyd llwyddiant o fewn y gwaith i newid diwylliant a datblygu'r gweithlu, ble llwyddwyd i ddatblygu fframwaith ar gyfer rheoli talent, gosodwyd seiliau cadarn ar gyfer ymestyn y defnydd o gymhelliant a gwelwyd nifer o ymgyrchoedd o safbwynt iechyd staff e.e. iechyd merched, iechyd dynion a iechyd meddwl.

Cytunwyd ar feini prawf newydd cadarn ar gyfer cydweithio a gwelwyd llwyddiant i gydweithio yn rhanbarthol yn y maes Addysg ac yn y maes Caffael Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cynhaliwyd cyfres o sesiynau trafod gydag aelodau, rheolwyr, staff a'r cyhoedd ar draws y Sir i adnabod ein gwendidau Gofal Cwsmer. O'r gwaith hwn bydd strategaeth Gofal Cwsmer newydd yn cael ei llunio.

Cafwyd ymyraethau trawsnewid busnes buddiol mewn dwy uned sef Digartrefedd â Chynnal a Chadw Eiddo, fydd yn sail ar gyfer rhaglen fwy cynhwysfawr i drawsffurfio profiadau'r cwsmer yn 2012/13.

Yn y prosiect gwella gwasanaethau sy'n tanberfformio cafwyd effaith bositif fel canlyniad i ymyraethau penodol yn ystod y flwyddyn; e.e. budd daliadau tai. Llwyddwyd i ddefnyddio'r teclyn caffael cynaliadwy gyda dau brosiect sylweddol yn ystod y flwyddyn.

Am amryw o resymau gwelwyd llithriad mewn sawl maes yn ymwneud ag ymgysylltu gyda'r cyhoedd, ond dylid nodi bod y gwaith gafodd ei gyflawni yn 2011/12 yn sylfaen gadarn ar gyfer cryfhau ein trefniadau yn 2012/13.

O safbwynt Grymuso Cymunedau ni welwyd y cynnydd disgwyliedig. Penderfynodd Aelodau i bwyllo er mwyn sicrhau bod ein cynlluniau e.e. Fforymau Ardal yn cael yr effaith gorau yn y pen draw.

## Dangosyddion Allweddol Trawsffurfio

| Dangosydd | Gwaelodlin 2010/11 | Perfformiad 2011/12 | Cyrhaeddiad 2014 |
|---|---|---|---|
| Cynnydd yn nifer sydd yn datgan eu bod yn fodlon ynghylch y ffordd mae'r Cyngor yn rhedeg pethau | 43% | Arolwg Trigolion i'w adrodd yn 2012/13 | Cynnydd |
| Cynnydd yn nifer sydd yn datgan eu bod am fod fwy ynghlwm â phenderfyniadau sydd yn effeithio eu hardal leol | 29% | Arolwg Trigolion i'w adrodd yn 2012/13 | Cynnydd |
| Cynnydd yn nifer sydd yn datgan eu bod yn fodlon gyda chanlyniad y gwasanaeth a dderbyniwyd yn dilyn eu cyswllt gyda'r Cyngor | 34% | Arolwg Trigolion i'w adrodd yn 2012/13 | Cynnydd |
| Cynnydd yn lefel bodlonrwydd staff gyda'r Cyngor fel lle da i weithio | D/B | Canlyniad arolwg staff Cyngor Gwynedd i'w adrodd diwedd 2012/13 | Cynnydd o 5% ers yr arolwg staff diwethaf |
| Canran dangosyddion y rhaglenni sydd wedi cwrdd â'u targedau | 64% | 56% | 70% |
| Canran y prosiectau yn y rhaglenni sydd yn debygol o gyflawni'r prif fuddiant | 70% | 78% | 70 – 75% |

## Cynlluniau Trawsffurfio

| Cyfeirnod | Gwelliant | Prif allbwn neu ddeilliant y cynllun neu brosiect ar gyfer y flwyddyn 2011/12 | Coch/ Ambr/ Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| GGCY01 | Ymgysylltu - Fframwaith corfforaethol cyson yn cael ei defnyddio ar draws y gorfforaeth i yrru gweithgareddau ymgysylltu (gan gynnwys cyfundrefn reolaethol briodol). | Cynnydd yn ymwybyddiaeth ymysg swyddogion allweddol – Cynllun Strategol. | AMBR | Mae'r Fframwaith Corfforaethol wedi ei lunio, a bydd y gwaith o gynyddu ymwybyddiaeth ymysg swyddogion yn cael ei gwblhau yn 2012/13. |
| GGCY02 | Ymgysylltu - Panel Trigolion yn cael ei ddefnyddio i sefydlu barn carfannau o drigolion yn unol â blaenoriaethau corfforaethol. | Barn y Panel Trigolion wedi ei leisio ar nifer o brif faterion y Cyngor. | AMBR | Mae'r Panel wedi ei ohirio tan ar ôl yr etholiad yn unol â dymuniad yr Arweinydd. Bwriedir ei gynnal yn fuan yn 2012/13. |
| CC1 | Ymgysylltu - Cynnal gwaith sgopio mewn perthynas â hyd a lled y cynllun "Ffocws ar Ardaloedd Gwynedd" gan ystyried y cyd berthynas gyda Fforymau Ardal a Phartneriaethau Cymunedol Lleol. | Dim deilliant yn 2011/12. | | Mae gwaith sgopio wedi ei gyflawni, ond nid oedd deilliant penodol i'w gyflawni yn 2011/12. |
| CC2 | Grymuso Cymunedau Gwynedd - Fforymau Ardal: Creu fforymau ardal i sicrhau ein bod yn datblygu atebion lleol i broblemau lleol ar y cyd gyda'r gymuned leol. | Ffiniau ardaloedd i'w defnyddio wedi eu diffinio. | COCH | Ni chafwyd cytundeb gan y Cyngor Llawn ar ddyfodol y Pwyllgorau Ardal hyd fod y pwyllgorau ardal wedi trafod y mater, ac felly mae'r amserlen wedi llithro. Bydd adroddiad pellach yn mynd gerbron y Cyngor ym mis Mai er mwyn cael penderfyniad. |

| Cyfeirnod | Gwelliant | Prif allbwn neu ddeilliant y cynllun neu brosiect ar gyfer y flwyddyn 2011/12 | Coch/ Ambr/ Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| CC3 | Grymuso Cymunedau Gwynedd - Partneriaethau Cymunedol Lleol: Creu mwy o bartneriaethau lleol o fewn cynghorau cymuned i gyflawni gwasanaethau lleol eu natur. | Penderfyniad y Cyngor ynghylch ymestyn y cynllun i ardaloedd eraill. | COCH | Cynamserol dod i gasgliad ar yr elfen yma hyd nes y derbynnir penderfyniad ar CC2. |
| CC4 | Grymuso Cymunedau Gwynedd - Partneriaethau Cymunedol Lleol: Sicrhau cyfundrefn ar gyfer arfogi grwpiau cymunedol i gymryd cyfrifoldebau am weithgareddau os dymunant wneud hynny. | Eglurder ynghylch y dull gorau i annog cymunedau ehangach i gymryd cyfrifoldebau am weithgareddau os dymunant wneud hynny. | COCH | Cynamserol dod i gasgliad ar yr elfen yma hyd nes y derbynnir penderfyniad ar CC2. |
| CC5 | Grymuso Cymunedau Gwynedd - Cyllidebau Lleol: Cynllun ar waith fydd yn rhoi adnoddau go iawn i'r fforymau ardal fedru eu defnyddio i ddiwallu anghenion eu hardaloedd ac i gymunedau benderfynu ar ddyraniad adnoddau. | Dim deilliant yn 2011/12. | | Nid oedd deilliant i'w gyflawni yn 2011/12. |
| GGCH01 | Ail-ddiffinio Strategaeth Gofal Cwsmer. | Cyfeiriad wedi ei gytuno ar gyfer gwella gofal cwsmer ac adnabod gwasanaeth ar gyfer gwaith dwys. | AMBR | Mae adroddiad am ffurf y strategaeth derfynol wedi ei chyflwyno. Bydd yn cael ei alw'n "Strategaeth Rhoi'r Cwsmer yn Gyntaf" a fydd yn cynnwys yr elfennau diwylliedig a'r elfennau strategol. |

| Cyfeirnod | Gwelliant | Prif allbwn neu ddeilliant y cynllun neu brosiect ar gyfer y flwyddyn 2011/12 | Coch/ Ambr/ Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| GGCTG01 | Gofal Cwsmer - Trawsnewid Busnes. | Eglurder ynghylch y ffordd ymlaen yn dilyn canlyniad y ddau ymarferiad peilot. dwy ymyrraeth wedi eu cwblhau gan ddangos sut yr ydym wedi gwella gwasanaeth i gwsmeriaid a sut y mae'r gwasanaethau yn fwy effeithlon. | AMBR | Dau ymarferiad peilot wedi eu cynnal ym maes digartrefedd a chynnal a chadw adeiladau. Buddion wedi eu hadnabod o'r ymarferion hyn o sail y cwsmer, ac ymyraethau wedi digwydd. Mae'n rhy fuan i brofi os yw'r gwasanaethau yn fwy effeithlon. Penderfynwyd addasu'r dull i fod yn gyfundrefn ysgafnach sy'n cyflawni'r budd yn gynt. |
| PAD01 | Y Gweithlu - Cynnal adolygiad i drefniadau cyfathrebu mewnol. | Gwell ymwybyddiaeth o'r gwaith sydd angen ei wneud er mwyn gwella cyfathrebu mewnol. | GWYRDD | Mae adolygiad wedi ei gynnal i drefniadau cyfathrebu mewnol y Cyngor, a'r gwahanol ddulliau o gyfathrebu wedi eu hadnabod. |
| PAD02 | Datblygu cyfundrefn "Arweinyddiaeth Weladwy". | Arweinyddiaeth yn trafod materion wyneb yn wyneb gyda staff. | GWYRDD | Mae'r Grŵp Arweinyddiaeth, a'r Grŵp Rheolwyr wedi cynnal cyfarfodydd yn y swyddfeydd ardal. |
| P03 | Gweithredu pecyn o fuddiannau er mwyn hybu iechyd y gweithlu / Datblygu pecyn sydd yn hybu agwedd gymdeithasol o weithio gyda'r Cyngor / Creu datganiad gwobr gyflawn. | Cyfres o ddulliau i hybu iechyd staff mewn lle sydd yn cynyddu eu boddhad a Gwella presenoldeb. | GWYRDD | Mae'r Adran wedi dadansoddi canlyniadau arolwg barn, gan adnabod y buddiannau. Mae cyfres o opsiynau wedi eu cyflwyno i'r Bwrdd Rhaglen Trawsffurfio er mwyn penderfynu pa becynnau maent am eu cefnogi. Mae'r Adran wedi gweithredu ar rai o'r opsiynau a gadarnhawyd. |
| H1 | Ymchwilio i ddulliau ar gyfer rheoli talent. | Eglurder ynghylch sut i adnabod staff sydd gyda photensial i'w datblygu. | GWYRDD | Cynllun wedi ei ddatblygu ac yn cael ei dreialu yn Rheoleiddio. |

| Cyfeirnod | Gwelliant | Prif allbwn neu ddeilliant y cynllun neu brosiect ar gyfer y flwyddyn 2011/12 | Coch/ Ambr/ Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| H2 | Datblygu'r arddull cymhelliant ymysg y rheolwyr, drwy ddatblygu'r gyfundrefn a hyfforddiant. | Treialu fframwaith "coaching" ar gyfer Cyngor Gwynedd (2 ffrwd : Datblygu sgiliau & 1:1)<br>Cynnal 'Peilot' yn Rheoleiddio<br>Mesur 'effaith' (Ffrwd Datblygu sgiliau). | GWYRDD | Mae'r fframwaith yn cael ei dreialu yn Rheoleiddio ar hyn o bryd. |
| H3 | Diffinio ein gweledigaeth ar gyfer rheoli yng Ngwynedd. | Eglurder ynghylch y ffordd ymlaen yn dilyn gwaith sgopio.<br><br>Symud o gyfundrefn hyfforddi draddodiadol i gyfundrefn newydd gyda'r pwyslais ar gyfundrefn dysgu a datblygu / Mewn un adran/uned fusnes penodol arbrofi ffordd holistaidd i wella dulliau rheoli er mwyn creu diwylliant rheolaethol fydd yn cyflawni llawn botensial y gweithlu. | GWYRDD | Mae'r Adran wedi sefydlu cyfundrefn newydd sy'n canolbwyntio ar ddysgu a datblygu. Mae'r ffordd holistaidd o wella dulliau rheoli yn cael ei arbrofi.<br><br>Bydd mesur llwyddiant yr arbrawf yn broses parhaus, ac felly mae'r gwelliant wedi ei gwblhau. |
| Pe1 | Ymchwilio ac adnabod nodweddion timau sydd â pherfformiad uchel. | Dim deilliant yn 2011/12. | | |
| Pe2 | Adnabod y rhwystrau presennol ar gyfer creu strwythur gweithlu ystwyth. | Eglurder ynghylch y ffordd ymlaen yn dilyn gwaith sgopio.<br><br>Datblygu ac yna gweithredu cyfres o opsiynau dewisol, e.e. creu swydd ddisgrifiadau hyblyg sydd yn caniatáu staff i symud ar draws adrannau. | GWYRDD | Mae'r Adran wedi adnabod y rhwystrau yn dilyn y gwaith ymchwil, ac wedi adrodd ar y canlyniadau i'r Bwrdd Rhaglen Trawsffurfio. |

| Cyfeirnod | Gwelliant | Prif allbwn neu ddeilliant y cynllun neu brosiect ar gyfer y flwyddyn 2011/12 | Coch/ Ambr/ Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| DaC13 | Trefniadau Democrataidd y Cyngor. | Trefn llywodraethu wedi ei sefydlu sydd yn dal y cabinet i gyfrif.<br><br>Strwythur lywodraethu gyfreithlon ac effeithiol mewn lle erbyn Mai 2012. | GWYRDD | Bydd y gwelliant yn cael ei gwblhau yn fuan iawn, bydd strwythur llywodraethu cyfreithlon ac effeithiol mewn lle erbyn mis Mai 2012. |
| CS1 | Ffocws ar Ganlyniadau - Datblygu'r gyfundrefn i sicrhau fod y prif brosiectau'n cael eu comisiynu ar sail canlyniadau. | Cynllun Strategol wedi ei gomisiynu ar sail canlyniadau. | GWYRDD | Cynllun Strategol ar waith gyda rhaglenni yn sicrhau canlyniadau sydd wedi eu hadnabod. |
| AS1 | Ffocws ar Ganlyniadau - Gweithredu'r gyfundrefn Adolygiadau Strategol i sicrhau fod y prif feysydd gwariant yn cael eu comisiynu ar sail canlyniadau. | Dau faes gwariant wedi eu comisiynu ar sail canlyniadau. | AMBR | Dau faes gwariant yn cael eu comisiynu a rhaglen waith ar gyfer y misoedd nesaf wedi ei chyd-weld. |
| RhPaP1 | Ffocws ar Ganlyniadau - Gweithredu dull canlyniadau sydd yn cyfrif i gryfhau ffocws y gwasanaethau ar ganlyniadau i drigolion. | Holl gynlluniau busnes yn adlewyrchu'r dyhead i sicrhau bod ffocws y gwaith ar ganlyniadau. | GWYRDD | Datblygiadau blwyddyn gyntaf wedi bod yn llwyddiannus iawn, gyda ffocws adrannau oll wedi symud tuag at fesur effaith ar y cwsmer. |
| RhPaP4 | Ffocws ar Ganlyniadau - Gwella perfformiad mewn rhai gwasanaethau sydd yn tanberfformio. | Gwelliant arwyddocaol i berfformiad y gwasanaethau er budd y cwsmer a'r Cyngor. | GWYRDD | Grŵp Tasg Gwella Perfformiad wedi ystyried mesuryddion nifer o feysydd gwaith sy'n tanberfformio. Gwaith yn parhau gan yr adrannau, gyda gwelliant ym mherfformiad tri wedi ei adrodd erbyn diwedd y flwyddyn. |

| Cyfeirnod | Gwelliant | Prif allbwn neu ddeilliant y cynllun neu brosiect ar gyfer y flwyddyn 2011/12 | Coch/ Ambr/ Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| CA1 | Ffocws ar Ganlyniadau - Gweithredu'r polisi caffael cynaliadwy a thargedu prif wariant (dros £500k). | Cytundebau cynaliadwy wedi eu llunio ar gyfer pob cytundeb dros £500k. | GWYRDD | Defnyddiwyd y teclyn caffael cynaliadwy ar gyfer dau gytundeb (Ysgol Bro Dysynni ac adeiladu Academi Hwylio Pwllheli). |
| CS2 | Ffocws ar Ganlyniadau - Datblygu a gweithredu trefniadau i sicrhau datblygiadau priodol gyda'r trydydd sector. | Eglurder ynghylch meysydd lle gall trydydd sector ddarparu gwasanaethau yn unol â blaenoriaethau comisiynu'r Cyngor. | GWYRDD | Adnodd wedi ei sicrhau a chytundeb gyda chynrychiolwyr y Trydydd Sector a'r Mentrau Cymdeithasol ar raglen waith. |
| Pe3 | Rhaglen hyfforddi ar gyfer cefnogi newid wedi datblygu. | Rheolwyr wedi derbyn y sgiliau er mwyn cefnogi newid yn llwyddiannus.<br><br>Yn weithredol ar gyfer Uwch Reolwyr, Penaethiaid a Chyfarwyddwyr. | GWYRDD | Mae'r rhaglen hyfforddi ar gyfer cefnogi newid wedi ei datblygu ac yn weithredol ar gyfer Uwch Reolwyr, Penaethiaid a Chyfarwyddwyr. |
| PR2 | Datblygu Capasiti Cefnogi Newid, drwy adnabod y prosiectau allweddol sydd angen cymorth y tîm ac yna dyrannu'r adnoddau yn unol â'r flaenoriaeth. | Buddiannau ar hyd y daith y prosiectau allweddol wedi eu gwireddu. Capasiti Cefnogi Newid wedi ei ddefnyddio i wireddu buddion ar y daith ar gyfer y prosiectau allweddol. | AMBR | Gwaith ymchwil ac adnabod ymarfer da yn parhau i fynd rhagddo, gyda sesiynau gweithdai mewnol ar gyfer adnabod y prif feysydd lle mae angen gwella a chynnig cefnogaeth ar gyfer newid wedi eu cynnal. Peilot wedi ei gynnal i'r trefniadau yn ystod y flwyddyn. |
| Pe4 | Datblygu diwylliant arloesol ymysg staff. | 10 o syniadau arloesi wedi eu mabwysiadu ar bob lefel o'r Cyngor. | GWYRDD | Mae'r gwaith o ymchwilio i ymarferion da wedi ei gwblhau diwedd chwarter dau. Bydd y System Syniad Da yn dod i rym ail o Ebrill 2012, fodd bynnag, yn unol â chais y Bwrdd Trawsffurfio, llithrwyd trafodaeth ar lunio'r gyfundrefn. |

| Cyfeirnod | Gwelliant | Prif allbwn neu ddeilliant y cynllun neu brosiect ar gyfer y flwyddyn 2011/12 | Coch/ Ambr/ Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Pe5 | Cymryd stoc o effaith datblygiad arweinyddiaeth hyd yn hyn gyda golwg ar welliannau sylweddol pellach er mwyn ymdopi gyda'r agenda trawsffurfio. | Eglurder ynghylch y ffordd ymlaen yn dilyn y gwaith sgopio. | AMBR | Penderfynwyd y dylid cael trafodaeth bellach er mwyn trafod y ffordd ymlaen a sicrhau cynnydd. |
| GGCG02 | Gweithredu'r Strategaeth Rheoli Gwybodaeth. | Llawlyfr Rheoli Cofnodion wedi'i gyhoeddi er mwyn rhoi arweiniad i staff. | GWYRDD | Mae'r cynlluniau unigol o fewn y cynllun gweithredu – Grŵp Diogelwch Gwybodaeth wedi eu cwblhau. Yn ogystal mae'r polisi rheoli cofnodion wedi ei anfon i'r Grŵp Rheoli ac yn disgwyl cadarnhad. Mae cytundeb rhannu gwybodaeth wedi ei gwblhau, ond angen ei gymeradwyo'r ffurfiol gan y Cynulliad. |
| CC10 | Asesu effaith newidiadau i wasanaethau cyhoeddus ar drigolion y sir. | Eglurder ynghylch yr ystyriaethau sydd o bwys i'r sir wrth ystyried newidiadau i wasanaethau cyhoeddus.<br>Asesiad o newidiadau sylweddol yn ymwneud â newid i wasanaethau cyhoeddus yn ystod y flwyddyn. | GWYRDD | Cynlluniau cydweithio Addysg ranbarthol a chanolbwynt caffael y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'i herio a'i gytuno gan y Cyngor ynghyd â Rhesymoli Partneriaethau gydag Ynys Môn. |
| Ychwanegwyd yn ystod y flwyddyn | Comisiynu Gwasanaethau Cymdeithasol. | Eglurder ynghylch addasrwydd capasiti comisiynu'r Gwasanaethau Cymdeithasol. | GWYRDD | Adroddiad ar addasrwydd capasiti comisiynu'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ei dderbyn. |

## Arbedion

Mae’r cynlluniau yn y maes Arbedion yn cyfrannu at y canlyniad isod:

***Cyflawni’r swm arbedion sydd ei angen ar gyfer cwrdd â gofynion strategaeth ariannol y Cyngor dros y cyfnod, gan effeithio cyn lleied â phosibl ar ganlyniadau i drigolion Gwynedd***

## Perfformiad yn y Maes Arbedion – Y Stori tu ôl i'r Perfformiad.

Oherwydd bod gwariant cyhoeddus yn dal i gael ei ostwng yn genedlaethol, rhagwelir fod y Cyngor yn wynebu diffyg ariannol o tua £37m dros y pedair blynedd 2011/12 i 2014/15.

Roeddem eisoes wedi rhagweld cyfnod heriol ac wedi cytuno pecyn o arbedion sy'n mynd beth o'r ffordd tuag at gau'r bwlch ariannol yma. Dros y flwyddyn ddiwethaf felly fe wnaethom ganolbwyntio ar:

- Gyflawni'r arbedion a gynlluniwyd ar gyfer 2011/12. Cwblhawyd dros 110 cynllun yn llwyddiannus gan arbed cyfanswm o dros £6m, gyda £4.5m o hwn yn dod trwy weithio'n fwy effeithlon. Fe fu i 13 cynllun lithro gan arwain at angen i bontio'r bwlch drwy ddefnyddio tanwariant ym meysydd eraill o tua £0.6m; prif achosion yr oedi ar y rhain oedd ein bod yn dibynnu ar bartneriaid allanol neu fod cyflawni'r arbediad yn profi'n fwy cymhleth na ddisgwyliwyd.
- Datblygu cynlluniau ar gyfer gweddill y bwlch ariannol. Fe gytunwyd pecyn newydd o gynlluniau effeithlonrwydd yn seiliedig ar 1% o gyllideb pob gwasanaeth am dair blynedd, fydd yn arbed £4.7m.

Ni lwyddwyd i gyflawni popeth a fwriadwyd mewn rhai meysydd. Mae rhai cynlluniau effeithlonrwydd – yn bennaf rhai sy'n gofyn i ni gydweithio gyda chynghorau a chyrff eraill a rhai lle 'rydym yn cynnal adolygiad sylfaenol o natur y gwasanaeth a ddarperir – wedi llithro o'i gymharu â'r amserlen wreiddiol; mae hyn eto'n adlewyrchu ein dibyniaeth ar bartneriaid allanol a'r angen i fod yn realistig am yr amser sydd ei angen ar gyfer prosiectau mawr a chymhleth o'r fath. Nid oedd hyn yn peryglu'n gallu i gyrraedd targedau ariannol y prosiect gan y llwyddwyd i'w canfod o gynlluniau effeithlonrwydd eraill.

Yn sgil datganiadau diweddar y Canghellor y bydd gostyngiadau gwariant cyhoeddus yn parhau am o leiaf ddwy flynedd arall wedi 2014/15, fe fydd angen rhoi mwy o bwyslais fyth i'r dyfodol ar gyflawni'n cynlluniau yn unol â'r amserlen wrth effeithio cyn lleied â phosib ar ganlyniadau i drigolion Gwynedd.

## Dangosyddion Allweddol Arbedion

| Dangosyddion | Targed 2011/12 | Perfformiad |
|---|---|---|
| Swm arbedion a gyflawnwyd | £6.7m – sef;<br><br>£5.0m Pecyn arbedion £16m<br>£1.2m Newid polisïau cyllidebol<br>£0.5m Prosiect effeithlonrwydd trawsadrannol | Cyflawnwyd £6.1m yn ystod y flwyddyn gyda'r £0.6m o gynlluniau'r pecyn £16m angen eu pontio oherwydd llithriad amser. |
| O fewn y swm arbedion uchod: Symiau a wireddir drwy gynlluniau effeithlonrwydd a chodi incwm | Effeithlonrwydd £5.0m<br>Codi incwm £0.6m | Rhagwelir gwireddu;<br>Effeithlonrwydd £4.5m<br>Codi incwm £0.4m<br>(gyda'r gwahaniaeth o £0.6m yn llithro fel nodwyd uchod) |
| Mesurau perfformiad gwasanaeth yn y meysydd lle cyflawnir arbedion effeithlonrwydd a thoriadau | Dim effaith andwyol ar berfformiad pan weithredir arbedion effeithlonrwydd.<br><br>Mewn meysydd lle gwneir toriadau, effaith ar berfformiad yn unol â'r hyn ragwelwyd wrth gytuno ar y toriadau. | Nid yw'r asesiad yma wedi'i gyflawni eto. |

## Cynlluniau Arbedion

| Cyfeirnod | Gwelliant | Prif allbwn neu ddeilliant y cynllun neu brosiect ar gyfer y flwyddyn 2011/12 | Coch/ Ambr/ Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Eff1 | Targed effeithlonrwydd gwasanaethau. | Pecyn o gynlluniau effeithlonrwydd ar gyfer y blynyddoedd dilynol wedi'i fabwysiadu gan y Cyngor. | GWYRDD | Pecyn o gynlluniau arbedion effeithlonrwydd 1% gan yr adrannau wedi'i fabwysiadu gan y Cyngor llawn yn Rhagfyr 2011 a Chwefror 2012. |
| CC6 | Prosiect Effeithlonrwydd Trawsadrannol: Lean. | Canlyniad y ddau ymarferiad peilot gennym ac wedi arwain at wasanaethau mwy effeithlon.<br><br>Penderfyniad ar gamau pellach. | AMBR | Dau ymarferiad peilot wedi eu cynnal ym maes digartrefedd a chynnal a chadw adeiladau. Buddion wedi eu hadnabod o'r ymarferion hyn o sail y cwsmer, ac ymyrraethau wedi digwydd. Mae'n rhy fuan i brofi os yw'r gwasanaethau yn fwy effeithlon. Penderfynwyd addasu'r dull i fod yn gyfundrefn ysgafnach sy'n cyflawni'r budd yn gynt. |
| AS1 | Adolygiadau Strategol. | Eglurder am y gyfundrefn i'r dyfodol gan ystyried gwersi a ddysgwyd o'r Adolygiad Hamdden. Penderfyniad ar yr opsiwn a ffafrir o blith opsiynau terfynol Hamdden. | AMBR | Adolygiadau wedi cychwyn mewn pedwar maes gwariant. Dangosodd profiad y flwyddyn ein bod angen neilltuo mwy o amser i gael barn defnyddwyr gwasanaeth a phobl / cyrff eraill sydd â diddordeb yn y maes. Ni chyrhaeddwyd yr amserlen wreiddiol felly ond fe sefydlwyd amserlen newydd fwy realistig ar gyfer y rhaglen adolygiadau. |

| Cyfeirnod | Gwelliant | Prif allbwn neu ddeilliant y cynllun neu brosiect ar gyfer y flwyddyn 2011/12 | Coch/ Ambr/ Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Eff4 | Prosiect Effeithlonrwydd Trawsadrannol: Cydweithio. | Achosion busnes rhanbarthol wedi'u cytuno ac wedi eu derbyn gan y Cyngor. | GWYRDD | Mae dau brosiect rhanbarthol wedi'u herio a'u cytuno gan y Cyngor ynghyd â'r cynllun Rhesymoli Partneriaethau gydag Ynys Môn. |
| CC7 | Prosiect Effeithlonrwydd Trawsadrannol: Adolygiadau Gweithredol. | Achosion busnes ar gyfer Anableddau Dysgu, Teleofal a Galluogi wedi'u derbyn a phenderfyniad ar weithredu. | AMBR | Rhaglen waith heb ddatblygu fel y disgwyliwyd. Gwersi wedi eu dysgu, a'r dull gweithredu wedi ei addasu er mwyn sicrhau'r budd mwyaf i drigolion Gwynedd. Adolygiad plant ac oedolion wedi llithro i flwyddyn nesaf er mwyn sicrhau'r adnodd cywir i ymgymryd â'r gwaith. |
| | Lleihau cost y gweithlu. | Achos busnes wedi ei dderbyn a phenderfyniad ar weithredu. | GWYRDD | Arbedion wedi'u gwireddu ar dreuliau teithio staff ac ar hysbysebu swyddi. |
| | Defnydd o dechnoleg. | Achos busnes a chynllun gweithredu ar gyfer VOIP (Voice Over Internet Protocol) ac EDRMS (Electronic Document and Records Management System). | GWYRDD | Achosion busnes a chynlluniau gweithredu wedi'u cytuno. |
| CC8 | Prosiect Effeithlonrwydd Trawsadrannol: 'Total Place'. | Achos busnes a phenderfyniad ar weithredu. | GWYRDD | Achos Busnes wedi ei lunio. |
| CC9 | Prosiect Effeithlonrwydd Trawsadrannol: Cyffredinol – Prosiect cyfan. | Arbedion effeithlonrwydd gwerth o leiaf £0.5m wedi eu hadnabod ar gyfer gweithredu yn ogystal â chyfleoedd arbedion ychwanegol i'r ffrydiau gwaith canlynol. | GWYRDD | Y prosiect effeithlonrwydd yn ei gyfanrwydd wedi llwyddo i adnabod y targed arbedion o £500k ar gyfer y flwyddyn. Cafodd meysydd newydd posibl eu hadnabod ar gyfer y blynyddoedd dilynol. |

| Cyfeirnod | Gwelliant | Prif allbwn neu ddeilliant y cynllun neu brosiect ar gyfer y flwyddyn 2011/12 | Coch/ Ambr/ Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| CG1.04 | Newid polisïau cyllidebol. | Polisïau diwygiedig yn eu lle sydd yn arwain at lai o ofyn ar y gyllideb. Arbedion ariannol o £1.2m. | GWYRDD | Llwyddwyd i arbed £1.2m drwy dynhau rhai o'r tybiaethau ynglŷn â chwyddiant a chasglu'r dreth gyngor wrth lunio'r gyllideb. Dengys cyfrifon terfynol y flwyddyn ein bod wedi cyflawni hyn wrth barhau i allu cadw o fewn y gyllideb. |
| CG1.05 | Cynhyrchu Incwm. | Penderfyniad ar feysydd gweithredu a datblygu cynlluniau ar gyfer 2012/13. | AMBR | Llithriad yn yr amserlen dadansoddi cyfleon. Er hynny, bu cynnydd wrth adnabod ffordd ymlaen er mwyn cynhyrchu incwm o wastraff masnachol tai gwyliau ac mae gweithgor wedi'i sefydlu i adolygu ffioedd parcio. |
| | Treth Cyngor ar ail gartrefi. | Sylw i'r mater yn y Cynulliad. | GWYRDD | Trafodwyd yn y Cynulliad fis Mawrth 2012 ac ymrwymodd y Llywodraeth i ystyried y mater. |
| | Disgownt Person Sengl. | Incwm ychwanegol unwaith-ac-am-byth yn dilyn gweithredu ar ganfyddiadau'r adolygiad. | GWYRDD | Incwm ychwanegol o dros £150k wedi'i sicrhau. |
| Eff5 | Toriadau [Cau'r bwlch ariannol]. | Dim deilliant yn 2011/12. | | |
| | Ysgolion. | Gwireddu gostyngiadau yng nghyllidebau ysgolion sy'n gyson gyda'r amcan o geisio eu gwarchod rhag y toriadau gwaethaf. | GWYRDD | Mae'r Strategaeth Ariannol a gymeradwywyd gan y Cyngor ym Mawrth 2011 yn cynnwys elfen o warchodaeth i gyllidebau ysgolion dros y tair blynedd nesaf. Golyga hyn y bydd disgwyl i gyfanswm arbedion ysgolion fod tua £1.1m yn llai na phe bai ysgolion yn cyfrannu arbedion effeithlonrwydd ar yr un raddfa â gwasanaethau eraill y Cyngor. |

| Cyfeirnod | Gwelliant | Prif allbwn neu ddeilliant y cynllun neu brosiect ar gyfer y flwyddyn 2011/12 | Coch/ Ambr/ Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | Gweithio'n Hyblyg. | Asesiad o lwyddiant y peilot Gweithwyr Maes. | GWYRDD | Fe wnaed asesiad o lwyddiant y peilot cychwynnol ac ar y sail honno fe benderfynwyd symud ymlaen i ehangu'r gyfundrefn ar draws y Cyngor gan barhau i asesu tystiolaeth am y buddion. |
| | System Adnoddau Dynol. | Penderfyniad ar gyfeiriad o ran cydweithio yn y maes yma. | GWYRDD | Bu oedi cychwynnol wrth aros am benderfyniad cynghorau eraill ar y posibilrwydd o gydweithio yn y maes yma, ond gan nad oes ewyllys bellach ymysg awdurdodau eraill i gydweithio fe gychwynnwyd symud ymlaen i brynu a mewnosod system ein hunain. |
| Eff6 | Cynlluniau Grŵp C - Fel rhan o'r broses penderfynu ar arbedion y Strategaeth £16m gosodwyd rhai cynlluniau yng "Nghategori C", sef gwrthod eu derbyn yn ffurf y cawsant eu cyflwyno, ond gofyn am waith pellach i asesu opsiynau amgen yn y maes, gyda'r nod o ganfod mwy o arbedion i ymateb i'r her ariannol. | Adroddiad i'r Cyngor ar ganlyniadau'r prosiect cyfan, ac i drosglwyddo elfennau sydd angen mwy o waith i brosiectau eraill os oes angen. | GWYRDD | Wedi'i gwblhau. |

| Cyfeirnod | Gwelliant | Prif allbwn neu ddeilliant y cynllun neu brosiect ar gyfer y flwyddyn 2011/12 | Coch/ Ambr/ Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Eff3 | Gwireddu Arbedion. | Cyflawni cyfanswm arbedion gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn o £5.0m | AMBR | Yn ystod y flwyddyn fe gyflawnwyd gwerth £4.4m o'r targed gwreiddiol, gyda llithriad amser ar y £0.6m oedd yn weddill. Yn ogystal fe wireddwyd gwerth £0.5m o gynlluniau newydd eraill a ddaeth i'r amlwg yn ystod y flwyddyn. |
| RhPaP5 | Cytundeb Canlyniadau. | Cytundeb gan Lywodraeth y Cynulliad fod y Cyngor wedi dangos ei fod wedi cyflawni'r cynnydd a fwriadwyd, a chadarnhad y byddwn yn derbyn 100% o'r swm posibl (£1.3m). | GWYRDD | Llwyddodd y Cyngor i gyflawni yn erbyn y disgwyliadau ar gyfer 2010/11 ar gyfer y cytundeb canlyniadau, gan sicrhau swm o £1.3m i'r Cyngor. |

## Gwella Iechyd

Bwriad y cynlluniau yn y maes Gwella Iechyd yw cyfrannau at y canlyniad isod:

***Pobl Gwynedd yn byw bywydau iachach***

## Perfformiad yn y maes Gwella Iechyd – Y Stori tu ôl i'r Perfformiad

Prosiect datblygol ydy'r prosiect hwn a phrif nod gwaith y flwyddyn oedd gosod seiliau cadarn ar gyfer gweithredu pellach yn y dyfodol. Y mae gwella iechyd yn fusnes i bawb, yn unigolion, yn deuluoedd, yn gymunedau ac yn asiantaethau. Roedd cynnwys y thema Gwella Iechyd o fewn Cynllun Strategol y Cyngor yn gydnabyddiaeth o rôl allweddol y Cyngor yn y maes hwn ac yn arwydd o ymrwymiad y Cyngor i gyfrannu'n ymhellach at wella iechyd trigolion Gwynedd.

Ond sut mae gwella iechyd pobl? Beth sy'n gweithio ac sy'n gost effeithiol? Mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru fe wnaethpwyd llawer o waith i adnabod yr ymyraethau hynny sy'n gweithio ac yn newid ymddygiad pobl a chymunedau yn barhaol. Yr ymyraethau hyn fydd sylfaen rhaglen waith *Gwynedd Iach* a lansiwyd yn Eisteddfod Glynllifon gan ganolbwyntio ar weithredu yn y meysydd canlynol:

- Gwynedd Di-fwg
- Gwynedd Egniol
- Bwyta'n Iach
- Alcohol a Chyffuriau

Er mwyn hyrwyddo'r neges o wella iechyd, mae un gwasanaeth o fewn y Cyngor sef Darparu a Hamdden wrth ail strwythuro yn rhoi mwy o ffocws ar fyw'n iach. Y gwasanaeth hwn fydd yn arwain ar y prosiectau arfaethedig yn y meysydd hyn.

Y mae iechyd staff y Cyngor hefyd yn bwysig ac mae Gwynedd bellach wedi ennill y Safon Aur ym maes Iechyd Corfforaethol, un o'r ychydig gynghorau trwy Gymru i wneud hynny. Mae'r cam nesaf sef ennill y Safon Platinwm yn fwy heriol ac yn gofyn am weithredu y tu hwnt i staff y Cyngor . Enghraifft gynnar o'r gweithgaredd hwnnw oedd yr Her Beicio a gynhaliwyd yn ddiweddar er mwyn hybu pobl i feicio mwy a dysgu mwy am y rhwystrau i hynny.

Ond trwy gydweithio mae llwyddo ac fe welwyd hynny yn glir yn y gwaith a wnaethpwyd yn y maes tybaco gyda Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd. Os ydan ni o ddifrif am geisio atal pobl ifanc rhag dechrau ysmygu neu eu cymell i roi'r gorau iddi hi, pwy well i ofyn am gymorth i greu deunyddiau addas na phobl ifanc eu hunain. Mae'r pecyn a lansiwyd eto yn Eisteddfod Glynllifon wedi cael croeso mawr y tu hwnt i Wynedd.

## Dangosyddion Allweddol Gwella Iechyd

| Dangosydd | Gwaelodlin 2010/11 | Perfformiad 2011/12 |
|---|---|---|
| Targedau *Creu Cymru Egniol* 'Un diwrnod yn rhagor' i blant ac oedolion | gwaelodlin ddim ar gael tan 2011/12 | 33% |
| % oedolion sy'n adrodd eu bod yn ysmygu | 25% | 24% |
| % oedolion sy'n adrodd eu bod yn bwyta 5 dogn o ffrwythau a llysiau pob dydd | 42% | 41% |
| % oedolion sy'n adrodd eu bod yn dew neu'n ordew | 55% | 56% |
| % oedolion sy'n adrodd eu bod yn yfed mwy na'r canllawiau cydnabyddedig | 47% | 45% |
| Nifer y dyddiau a gollwyd i salwch yng Nghyngor Gwynedd | 10 diwrnod fesul unigolyn | 8.29 diwrnod fesul unigolyn |

* Mae Gwaelodlin 2010/11 ar sail data 2009/10 gyda data 2011/12 ar ddata sensws 2010/11

## Cynlluniau Gwella Iechyd

| Cyfeirnod | Gwelliant | Prif allbwn neu ddeilliant y cynllun neu brosiect ar gyfer y flwyddyn 2011/12 | Coch/ Ambr/ Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| PSGI1 | Gwynedd Iach. | Cyfres o negeseuon i hybu neges Gwynedd Iach wedi eu datblygu. | GWYRDD | Cytundeb yn ei le ar y prif negeseuon. |
| PSGI2 | Hyrwyddo Gwynedd Di-Fwg. | Rhaglen waith wedi'i chytuno. | GWYRDD | Mentrau gwrth ysmygu wedi eu cwblhau. |
| PSGI3 | Hyrwyddo yfed yn gall a llai o gamddefnydd cyffuriau. | Rhaglen waith wedi'i chytuno. | COCH | Wedi methu gweithredu yn ôl y bwriad yn y maes hwn - i gael sylw yn 2012/13. |
| PSGI4 | Blaenoriaethu iechyd o fewn holl weithgareddau Cyngor Gwynedd. | Rhaglen waith wedi'i chytuno. | GWYRDD | Gwaith paratoadol ar gyfer anelu at safon Platinwm mewn Iechyd Corfforaethol wedi ei gwblhau. |
| Pe6 | Hyrwyddo Iechyd o fewn y gweithlu, eu teuluoedd a'r gymuned. | Cyfres o ddulliau i hybu iechyd staff mewn lle sydd yn cynyddu bodlonrwydd staff.<br><br>Ennill Safon Iechyd Corfforaethol yn arwydd o ymrwymiad y Cyngor I wella iechyd a lles y gweithlu ac iechyd a lles cymunedau. | COCH | Mae'r gwaith paratoi ar gyfer asesiad lefel Platinum o'r Safon Iechyd Corfforaethol wedi cychwyn a swyddogion wedi'u hadnabod. |

## Prosiect Strategol yn y maes Iaith

Mae'r cynlluniau yn y maes Iaith yn gyfrannau at y canlyniad isod:.

***Pobl yn byw trwy gyfrwng y Gymraeg yng Ngwynedd***

## Perfformiad yn y maes Iaith – Y Stori tu ôl i'r Perfformiad

Yn ystod y flwyddyn, buom yn gweithio tuag at wireddu'r canlyniad o "bobl yn byw trwy gyfrwng y Gymraeg yng Ngwynedd". Aed ati mewn sawl maes, o gefnogi'r rheini i ddatblygu eu hyder yn yr iaith, ceisio cynyddu'r defnydd o'r Iaith Gymraeg yn y gymuned, ceisio pontio rhwng dysgwyr a siaradwyr Cymraeg ac annog a chefnogi defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle**.** Llwyddwyd i gwblhau'r holl weithgareddau ac maent oll wedi cyfrannu tuag at geisio gwireddu'r canlyniad o a osodwyd. Fodd bynnag, mae gwireddu'r canlyniad hwn yn llawn yn dasg tymor llawer hwy ac yn un sydd yn cael ei heffeithio gan bob math o ddylanwadau eraill, y mae nifer ohonynt y tu hwnt i allu'r Cyngor a'i bartneriaid i ddylanwadu arnynt. Bydd gwaith y Cyngor a'i bartneriaid yn parhau felly yn y blynyddoedd nesaf, yn sicr wrth i'r her sydd yn wynebu'r iaith ddod yn fwy amlwg.

## Dangosyddion Allweddol Iaith

| Dangosydd | Gwaelodlin 2010/11 | Perfformiad 2011/12 | Cyrhaeddiad 2014 |
|---|---|---|---|
| % plant 3-4 oed sydd yn gallu siarad Cymraeg (Cyfrifiad). | Yng Ngwynedd, yn ôl Cyfrifiad 2001, 2 riant yn siarad Cymraeg gartref = 89.7% o blant 3-4 oed yn gallu siarad Cymraeg; rhiant sengl yn siarad Cymraeg = 73.4% o blant 3-4 oed yn gallu siarad Cymraeg; un o ddau riant yn siarad Cymraeg = 55.7% o blant 3-4 oed yn gallu siarad Cymraeg; dim oedolyn yn siarad Cymraeg = 34.6% o blant 3-4 oed yn gallu siarad Cymraeg. | Dim data ar gael tan gyhoeddiad cyfrifed Iaith Hydref 2012. | Rhagor o deuluoedd yn defnyddio'r Gymraeg ar yr aelwyd. |

| Dangosydd | Gwaelodlin 2010/11 | Perfformiad 2011/12 | Cyrhaeddiad 2014 |
|---|---|---|---|
| % y plant sydd yn derbyn asesiad mewn Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (dangosydd newydd). | Dim gwaelodlin. | 2011/12 yw'r flwyddyn gyntaf i ddisgyblion blwyddyn 2 gael eu hasesu dan y Cyfnod Sylfaen. Gwybodaeth ar gael Medi 2012. | Rhagor o blant gyda sylfaen gadarn i'r Gymraeg erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen. |
| Dim dangosydd ar gael. | Yn ôl Arolwg Defnydd Cymdeithasol o'r Gymraeg gan Blant Sector Cynradd Gwynedd (Medi 2010); 70% o ddisgyblion yn defnyddio'r Gymraeg gyda'r athro yn y dosbarth, 27% o ddisgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn bennaf gyda'u ffrindiau ar y buarth. | Dim data ar gael tan gyhoeddiad cyfrifed Iaith Hydref 2012. | Rhagor o blant yn defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol yn ysgolion cynradd Gwynedd. |
| | | Dim data ar gael tan gyhoeddiad cyfrifed Iaith Hydref 2012. | Rhagor o gyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol. |
| Nifer/% poblogaeth Gwynedd sydd yn gallu siarad Cymraeg (Cyfrifiad). | 69% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg yng Ngwynedd yn ôl Cyfrifiad 2001, gostyngiad o -1.8% ers 1991. 41 Adran Etholiadol efo dros 70% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg yn 2001 o gymharu â 60 ward yn 1991. | Dim data ar gael tan gyhoeddiad cyfrifed Iaith Hydref 2012. | Rhagor o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. |
| Dim dangosydd ar gael. | Dim gwaelodlin ar gael. | Dim data ar gael. | Rhagor o'r gweithlu yn defnyddio'r Gymraeg yng ngweithleoedd Gwynedd. |

## Cynlluniau Iaith

| Cyfeirnod | Gwelliant | Prif allbwn neu ddeilliant y cynllun neu brosiect ar gyfer y flwyddyn 2011/12 | Coch/ Ambr/ Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| PSI03 | Datblygu a gweithredu cynllun peilot mewn 2 ardal fydd yn sicrhau cyfleoedd a chefnogaeth briodol i rieni fagu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant. | Rhagor o rieni yn defnyddio'r Gymraeg gyda'u plant. | GWYRDD | Gwaith datblygol gyda'r Canolfannau Hamdden wedi cynhyrchu deunyddiau hwylus i staff a rhieni eu defnyddio gyda staff a rhieni yn cael eu mentora i ddatblygu eu hyder. |
| Add.14 | Rhagor o deuluoedd wedi cael eu cyflwyno i'r ardal a'r Gymraeg drwy'r cynllun cymathu 'Byw yng Nghymru' mewn cydweithrediad gydag Unedau iaith Gwynedd. | Cynllun cymathu 'Byw yng Ngwynedd' yn weithredol yn holl Unedau Iaith Gwynedd. | AMBR | Roedd un Canolfan Iaith wedi cynnal y cwrs yn nhymor y Gwanwyn 2012.<br><br>Bydd y Canolfannau i gyd yn ail gynnig y cwrs ar gyfer Tymor yr Haf 2012. |
| PSI04 | Cynllunio a chynnal ymgyrch farchnata proffil uchel er mwyn hyrwyddo manteision dwyieithrwydd a gwerth y Gymraeg. | Rhagor o blant, pobl ifanc a theuluoedd yn meithrin agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg. | GWYRDD | Ymgyrch wedi ei gynnal ac arfarniad o'i effaith yn cyflwyno negeseuon positif. |
| Add.08 | Rhagor o deuluoedd yn magu eu plant yn ddwyieithog a chynnydd yng nghanran y plant 3 i 4 oed yng Ngwynedd sydd yn gallu siarad Cymraeg. | Y gweithlu gofal plant a'r blynyddoedd cynnar yn trosglwyddo negeseuon i rieni am fanteision magu plant yn ddwyieithog. | GWYRDD | Rhannwyd pecyn llynedd – ‘Trosglwyddo’r Gymraeg’ ymysg staff a rhieni. Cytunwyd ar, a chynlluniwyd, holiadur i fonitro’r defnydd o’r pecyn a chafodd ei ddefnyddio i gasglu gwybodaeth gan weithwyr allweddol. |

| Cyfeirnod | Gwelliant | Prif allbwn neu ddeilliant y cynllun neu brosiect ar gyfer y flwyddyn 2011/12 | Coch/ Ambr/ Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Add.10 | Darparwyr addysg feithrin yn gosod sylfaen gadarn i'r Gymraeg. | Cynnydd yn nifer darparwyr addysg feithrin Gwynedd sydd yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus ac yn gosod sylfaen gadarn i'r Gymraeg yn unol â gofynion y Cyfnod Sylfaen. | COCH | Sefydlwyd grŵp tasg i edrych yn fanylach ar y data er mwyn teilwrio gwaith/ hyfforddiant i'r darparwyr addysg feithrin. Aros am gadarnhad bidiau ariannol i gynnal hyfforddiant i'r gweithlu. |
| Add.11 | Llunio, datblygu a gweithredu rhaglen hyfforddi gynhwysfawr a phriodol ar gyfer holl weithlu ysgolion cynradd Gwynedd er mwyn cynyddu defnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg. | Cynnydd yn y defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan blant sector cynradd Gwynedd. | GWYRDD | Mae Bwrdd y Cyngor wedi cymeradwyo i'r buddiant hwn drosglwyddo i 2012/13. |
| PSI05 | Cynllun Siarter Iaith Ysgolion yn seiliedig ar y Cynllun Ysgolion Iach a'r Cynllun Ysgolion Gwyrdd a'r Eco'Sgolion yn weithredol yn ysgolion cynradd Gwynedd. | Ysgolion Cynradd Gwynedd yn hyrwyddo'r Gymraeg. | GWYRDD | Y Cynllun i ymestyn wedi ei addasu rhyw fymryn er mwyn treialu ymagwedd mewn rhai ysgolion a gweld a yw'n llwyddo cyn ei ymestyn ar draws y sir. |
| PSI06 | Cynnal digwyddiad proffil uchel i godi ymwybyddiaeth o rôl y gweithlu i ddylanwadu'n gadarnhaol ar ddefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg. | Gweithlu ysgolion cynradd Gwynedd wedi eu harfogi o bwysigrwydd hyrwyddo'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd yr Ysgol. | GWYRDD | Cynhadledd C-Ffactor wedi sicrhau proffil gyda'r uchaf yn y Wasg gyda negeseuon cadarnhaol iawn am waith yn y maes hwn. |
| PSI07 | Datblygu Pencampwyr Iaith yng Nghanolfannau Hamdden Gwynedd. | Canolfannau Hamdden Gwynedd yn hyrwyddo'r Gymraeg ac yn darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith mewn cyd-destunau anffurfiol. | GWYRDD | Pencampwyr wedi eu penodi a'u cefnogi yn y gwaith gyda chytundeb yn ei le ar gyfer monitro effaith y gwaith. |

| Cyfeirnod | Gwelliant | Prif allbwn neu ddeilliant y cynllun neu brosiect ar gyfer y flwyddyn 2011/12 | Coch/ Ambr/ Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| GI.06 | Darparwyr gwaith ieuenctid yn hyrwyddo'r Gymraeg ymysg pobl ifanc. | Darparwyr gwaith ieuenctid yn cynnal gweithgareddau sydd yn hyrwyddo'r Gymraeg ymysg pobl ifanc. | GWYRDD | Pob aelod o staff y Gwasanaeth wedi derbyn hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith gyda sesiynau wedi darparu ar y cyd gyda Strategol a Gwella. Taflenni arfarnu'r gweithgareddau wedi llunio ac yn cael eu defnyddio i gofnodi gweithgareddau Cymraeg yn y clybiau Ieuenctid. |
| PSI08 | Llunio a chynnal sesiynau pwrpasol er mwyn dylanwadu a chodi ymwybyddiaeth am y Gymraeg mewn clybiau chwaraeon yng Ngwynedd. | Rhagor o glybiau chwaraeon yn hyrwyddo'r Gymraeg. | GWYRDD | Clybiau wedi eu cefnogi gyda syniadau ymarferol o ran cynyddu gwelededd a defnydd yr Iaith Gymraeg. |
| PSI09 | Buddsoddi mewn cynllun cyfieithu cymunedol i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. | Rhagor o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. | GWYRDD | Cynllun wedi ei gyflwyno yn dilyn oedi yn sicrhau adnoddau - Angen arfarnu ei effaith yn y flwyddyn nesaf. |
| SMG12 | Cymunedau wedi derbyn hyfforddiant i'w galluogi i gynnal archwiliad o'u hasedau ffisegol, naturiol a diwylliannol i'w harfogi i gynyddu eu capasiti i ddatblygu cynlluniau/asedau cymunedol sydd yn hyrwyddo'r Gymraeg | Dim buddiant yn 2011/12. | | |
| PSI10 | Gweithredu'r Fframwaith Nodweddion Cymdogaethau Cymraeg Ffyniannus. | Cymunedau yn ymwybodol o sefyllfa'r Gymraeg yn lleol. | GWYRDD | Bwrdd y Cyngor wedi caniatáu llithriad ar hwn yn sgil oedi y tu hwnt i reolaeth y Cyngor a'i bartneriaid. Y cyfan oedd yn medru digwydd o fewn y flwyddyn wedi digwydd. |

| Cyfeirnod | Gwelliant | Prif allbwn neu ddeilliant y cynllun neu brosiect ar gyfer y flwyddyn 2011/12 | Coch/ Ambr/ Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| PSI11 | Sefydlu cynllun i bontio rhwng dysgwyr a siaradwyr Cymraeg mewn dwy ardal. | Cynllun cymathu yn weithredol mewn 2 ardal. | GWYRDD | Y gwaith targedu wedi digwydd a gwaith wedi ei gyflawni gyda dysgwyr a siaradwyr Cymraeg trwy gydweithio â'r Swyddogion Adfywio Bro. |
| PSI12 | Cyflwyno Llyfryn Croeso at ddefnydd holl ysgolion cynradd Gwynedd. | Cymdeithasau Rhieni ac Athrawon Gwynedd yn hwyluso cymathiad teuluoedd newydd. | GWYRDD | Y Llyfryn Croeso wedi ei ddarparu a'i ddosbarthu i holl ysgolion y sir. |
| PSI13 | Llunio a datblygu Academi Datblygu Sgiliau Cymraeg i Reolwyr fel peilot yng Ngwynedd. | Cynnydd yn y defnydd proffesiynol o'r Gymraeg yng ngweithleoedd Gwynedd. | GWYRDD | Gwaith yr Academi wedi bod yn hynod lwyddiannus gyda gwerthusiad o'i effaith yn cadarnhau hynny. |
| PSI14 | Prosiect datblygol i gynyddu'r defnydd proffesiynol o'r Gymraeg yn y gweithle. | Cynnydd yn y defnydd proffesiynol o'r Gymraeg yng ngweithleoedd Gwynedd. | GWYRDD | Gwaith wedi ei gwblhau o fewn yr amserlen. Gweithleoedd wedi eu targedu er mwyn cynyddu defnydd. |
| PSI15 | Sefydlu achos busnes fel sail i ddatblygu cyrchfan 'gwyliau Cymraeg' yng Ngwynedd. | Gwell dealltwriaeth o fudd y Gymraeg fel arf economaidd yng nghyd-destun twristiaeth ddiwylliannol. | GWYRDD | Achos busnes cyrchfan gwyliau wedi ei gynhyrchu a'i gyflwyno i fudd-ddeiliaid. |
| PSI16 | Sicrhau lle creiddiol i'r Gymraeg fel rhan o ddatblygiadau economaidd sylweddol. | Pob datblygiad Economaidd sylweddol yn gweithredu Polisi Iaith. | GWYRDD | Datblygiadau wedi ei hadnabod gyda gwaith penodol gyda'r Academi Hwylio. Gwaith cydweithio gyda chynlluniau eraill, fel Pontio, yn gorfod dilyn amserlenni datblygu'r cynlluniau hynny. |

## Cynllun Datblygu Lleol

Mae'r cynlluniau yn y maes Cynllun Datblygu Lleol yn gyfrannau at y canlyniad isod:

***Strategaethau a pholisïau cynllunio defnydd tir a fydd yn cyfarch y prif faterion sy'n wynebu ardaloedd Awdurdodau Cynllunio Gwynedd a Môn***

## Perfformiad yn y maes Cynllun Datblygu Lleol – Y Stori tu ôl i'r Perfformiad

Bwriad y Prosiect yw sicrhau bod strategaeth a pholisïau defnydd tir yn cyfarch y prif faterion sy'n wynebu'r Sir.

Yn ystod y flwyddyn fe sefydlwyd Grŵp Prosiect Strategol sy'n cynnwys Aelodau a Swyddogion allweddol i ddarparu mewnbwn i'r camau dechreuol o ddatblygu Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd er mwyn sicrhau fod y weledigaeth ar gyfer y Cynllun yn cyd-fynd a gweledigaeth strategol y Cyngor.

Llwyddwyd i fabwysiadwyd Cynllun Cyflawni sy'n golygu bod y Cyngor, cymunedau a buddeiliaid yn glir ynglŷn â pha gamau fydd rhaid eu cymryd cyn gellir cael CDLl ar y Cyd yn ei le, pryd fydd y gwaith yn digwydd a sut a phryd y gall cymunedau ac eraill ddylanwadu ar ei gynnwys.

Yn ogystal, fe sicrhawyd cyfranogiad gan y cyhoedd ac amrywiol randdeiliaid i'r broses o edrych ar opsiynau twf a dosbarthiad ac yn dilyn ystyriaeth o'r farn a leisiwyd mae'r Cyngor wedi ffafrio lefel twf tai penodol a phatrwm datblygu ar gyfer y dyfodol.

Bydd 2012/13 yn gyfnod pwysig gyda'r angen i sicrhau mewnbwn i'r gwahanol gamau a fydd yn gysylltiedig â llunio'r Cynllun Cyn Adnau.

## Dangosyddion Allweddol Cynllun Datblygu Lleol

| Dangosydd | Gwaelodlin 2010/11 | Perfformiad 2011/12 |
|---|---|---|
| Adnabod prif faterion a gweledigaeth ar gyfer Cynllun | Bydd y broses hon yn seiliedig ar y sail tystiolaeth ar gyfer y Cynllun a fydd wedi ei sefydlu yn dilyn ymgynghoriad gyda budd ddeiliaid o safbwynt blaenoriaethau strategol ar gyfer y Sir. | Prif faterion a gweledigaeth wedi cael eu hadnabod ac wedi eu hadrodd i'r Cyngor ym mis Hydref. |
| | | Dogfen cyfranogiad cyhoeddus wedi cyfeirio at dystiolaeth amrywiol gan gynnwys y Strategaeth Gymunedol ac adroddiad sgopio'r Arfarniad Cyhoeddus o'r CDLL ar y Cyd. |
| | | Rheolwyr Polisi/Rhaglen yn darparu mewnbwn trwy'r Bwrdd Prosiect Strategol. |
| Nifer o unedau preswyl ac arwynebedd tir ar gyfer cyflogaeth o fewn y drafft cyn adnau o'r Cynllun yn cyfarch gofynion lleol. | I'w sefydlu fel rhan o'r broses o sefydlu'r sail tystiolaeth ar gyfer y Cynllun. | Nifer o unedau tai wedi cymeradwyo. Ond bydd angen cadw golwg ar hyn ar ôl cyhoeddiad canlyniadau Cyfrifiad 2011 (i'w cyhoeddi canol 2012), a rhagolygon poblogaeth ac aelwydydd canol 2011 (i'w cyhoeddi yn 2013). |

| Dangosydd | Gwaelodlin 2010/11 | Perfformiad 2011/12 |
|---|---|---|
| | | Astudiaeth Tir ar gyfer Cyflogaeth wedi cael ei gwblhau, sydd wedi adnabod arwynebedd tir i'w warchod/ ddynodi. Angen monitro hyn mewn cydweithrediad a'r Gwasanaeth Datblygu'r Economi. |
| Budd ddeiliaid ac unigolion a fu'n rhan o'r broses ymgynghori ar y drafft cyn adnau o'r Cynllun. | Budd ddeiliaid wedi eu hadnabod o fewn y Cynllun Cyflawni. | Prif fudd ddeiliaid wedi eu hadnabod o fewn y Cytundeb Cyflawni. Mae gan yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd gronfa ddata sy'n cael ei ychwanegu ato fel daw mwy o wybodaeth am fudd-ddeiliaid eraill i law. |
| Nifer ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y drafft cyn adnau o'r Cynllun. | I'w sefydlu. | |
| Cynllun Adnau yn cyfarch y prif faterion strategol sydd wedi eu hadnabod ar gyfer Gwynedd. | Dim gwaelodlin. | |

## Cynllun Datblygu Lleol

| Cyfeirnod | Gwelliant | Prif allbwn neu ddeilliant y cynllun neu brosiect ar gyfer y flwyddyn 2011/12 | Coch/ Ambr/ Gwyrdd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| PP13 | Llunio'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. | Bydd Cynllun Cyflawni ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol yn ei le fydd yn cynnwys:<br>▪ Cynllun Rheoli Amserlen Paratoi’r CDLl ar y Cyd.<br>▪ Cynllun Cynnwys Cymunedau. | GWYRDD | Cytundeb Cyflawni sy’n cynnwys amserlen ar gyfer paratoi'r CDLl ar y Cyd a Chynllun Cynnwys Cymunedau wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor a’i gefnogi gan Lywodraeth Cymru. |
| | | Bydd cyfranogiad cyhoeddus ar opsiynau twf a dosbarthiad wedi digwydd a bydd dogfen wedi ei chynhyrchu bydd yn seiliedig ar y cyfranogiad. | GWYRDD | Camau i ymgysylltu gyda’r cyhoedd a rhanddeiliaid amrywiol am opsiynau twf tai a dosbarthiad wedi cymryd lle rhwng Tachwedd a diwedd Ionawr 2012. |

## Atodiad A – Dangosyddion Allweddol

| Gwasanaeth | Cyfeirnod | Dangosyddion | Perfformiad 2009/10 | Perfformiad 2010/11 | Targed 2011/12 | Perfformiad 2011/12 | Cyfartaledd Cymru 2011/12 | Tuedd Perfformiad | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Addysg | DANS08 | Canran graddau 5 A* - C TGAU neu gyfatebol. | 64% | 65% | 63% | 70.70% | | ↑ | - |
| Addysg | DANS06 | Canran y disgyblion 16 oed sy'n cyrraedd safon sylfaenol yn y pynciau craidd Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth. | 48% | 53% | 47% | 52.3% | | ↓ | - |
| Addysg | EDU/003 (DANS01) | Canran y disgyblion sy'n cael eu hasesu ar ddiwedd ysgol gynradd sy'n cyrraedd safon sylfaenol yn y pynciau craidd Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth yn ôl yr Asesiad Athro. | 81.3% | 83.2% | 80.0% | 82.80% | 80.25% | ↓ | ↑ |
| Addysg | EDU/012 (DA03) | Canran y dosbarthiadau ysgol gynradd 7-11 oed â mwy na 30 o ddisgyblion | 4.10% | 2.75% | 2.0% | 1.9% | 2.2% | ↑ | ↑ |
| Y Cyngor | PSA1.0 | Lefel cynnydd yn y Dreth Cyngor. | 7.99% (Cynnydd dros 2 flynedd) | 12.2% (Cynnydd dros 3 blynedd) | Amrywiaeth o ddim mwy na +/- 1% o gyfartaledd y cynnydd ar draws Cymru | 16.13% (Cynnydd dros 4 blynedd) | | ↑ | - |
| Y Cyngor | | Gwir wariant y Cyngor o'i gymharu â'r gyllideb. | Gwariant o fewn y goddefiant derbyniol. | 0.20% | Gwariant o fewn y goddefiant derbyniol. | 0.17% | | ↑ | - |

| Gwasanaeth | Cyfeirnod | Dangosyddion | Perfformiad 2009/10 | Perfformiad 2010/11 | Targed 2011/12 | Perfformiad 2011/12 | Cyfartaledd Cymru 2011/12 | Tuedd Perfformiad | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gofal Cwsmer | CD6.01 | Canran anfonebau (na chafodd eu gwrthwynebu) a dalwyd o fewn 30 diwrnod. | 91% | 91% | 90% | 93% | | ↑ | - |
| Gofal Cwsmer | D2.1 | Nifer y dyddiau a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch fesul aelod o staff. | 10.02 diwrnod | 8.7 diwrnod | 8 diwrnod | 8.29 diwrnod | | ↑ | - |
| Gofal Cwsmer | DGCCC06 | Canran y galwadau ffôn sy'n cael eu hateb o fewn 15 eiliad. | 75.80% | 85% | 85% | 84.59% | | ↓ | - |
| Gofal Cwsmer | DGCCC03 | Canran y llythyrau a atebwyd o fewn 15 diwrnod gwaith. | 80% | 81% | 82% | 86% | | ↑ | - |
| Gofal Cwsmer | DGCE04 | Canran o adeiladau'r Cyngor sydd mewn cyflwr da neu dderbyniol. | 77% | 77% | 86% | 94.8% | | ↑ | - |
| Amgylchedd | STS/005b (PB11b) | Canran y prif ffyrdd a thir perthnasol a archwiliwyd sydd â'u safon glanweithdra yn uchel neu dderbyniol. | 94.60% | 93.79% | 94% | 95.58% | 95.33% | ↑ | ↑ |
| Amgylchedd | THS/011a (PB01) | Canran y prif ffyrdd sydd o safon annerbyniol. | 3.80% | 5.10% | 4.80% | 5.70% | 6.00% | ↓ | ↑ |
| Amgylchedd | THS/011b (PB02) | Canran y ffyrdd heblaw prif ffyrdd sydd o safon annerbyniol. | 8.10% | 5.20% | 11.50% | 5.50% | 7.80% | ↓ | ↑ |
| Amgylchedd | STS/005a (PB11a) | Canran strydoedd sy'n cyrraedd safon glendid derbyniol. | 70.30% | 70.89% | 67% | 73% | 70% | ↑ | ↑ |
| Gwasnaethau Cymdeithasol | SCC/001a | Canran y plant sy'n cael eu lleoli mewn gofal am y tro cyntaf sydd â chynllun gofal yn ei le. | 100% | 100%+E2 | 100% | 98.20% | 67.93% | ↓ | ↑ |
| Gwasnaethau Cymdeithasol | SCC/030a | Canran y gofalwyr ifanc y mae'r gwasanaeth cymdeithasol yn ymwybodol ohonynt gafodd eu hasesu | 64.81% | 100% | 100% | 100% | 92.58% | ↔ | ↑ |

| Gwasanaeth | Cyfeirnod | Dangosyddion | Perfformiad 2009/10 | Perfformiad 2010/11 | Targed 2011/12 | Perfformiad 2011/12 | Cyfartaledd Cymru 2011/12 | Tuedd Perfformiad | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasnaethau Cymdeithasol | SCC/006 | Canran y cyfeiriadau yn ystod y flwyddyn lle caiff penderfyniad ar y cam nesaf ei wneud o fewn 1 diwrnod gwaith. | 99.67% | 83.41% | 85% | 97% | 96.40% | ↑ | ↑ |
| Gwasnaethau Cymdeithasol | SCC/011a | Canran yr asesiadau cychwynnol wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle mae yna dystiolaeth bod Gweithiwr Cymdeithasol wedi gweld y plentyn. | 96.99% | 63.58% | 90.0% | 87.2% | 67.93% | ↑ | ↑ |
| Gwasnaethau Cymdeithasol | SCC/021 | Canran yr adolygiadau o blant sy'n derbyn gofal wedi eu cynnal o fewn amserlenni statudol yn ystod y flwyddyn. | 73.62% | 63.68% | 85.0% | 83.4% | 91.8% | ↑ | ↓ |
| Hylendid Bwyd | PPN/001ii (GyC08) | Canran y busnesau risg uchel sydd wedi cael adolygiad hylendid bwyd. | 95% | 90% | 100% | 100% | 99% | ↑ | ↑ |
| Hylendid Bwyd | PPN009 | Canran y busnesau bwyd sydd yn cydymffurfio gyda safonau hylendid bwyd. | - | 82.31% | 82% | 88.72% | 82.96% | ↑ | ↑ |
| Cynllunio | PLA/004b (CT2B) | % ceisiadau cynllunio (ac eithrio rhai mawr) wedi eu pennu o fewn 8 wythnos. | 61.10% | 45% | 60% | 48.56% | 61.90% | ↑ | ↓ |
| Trwyddedu | GyC06 | % gweithwyr hurio tacsi preifat wedi cael archwiliad yn ystod y flwyddyn. | 20% | 63% | 50% | 52% | | ↓ | - |

## Atodiad B – Dangosyddion Statudol

| Maes Gwasanaeth | Cyfeirnod | Dangosyddion | Perfformiad 2009/10 | Perfformiad 2010/11 | Targed 2011/12 | Perfformiad 2011/12 | Cyfartaledd Cymru 2011/12 | Tuedd Perfformiad | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Cymdeithasol | SCA/001 | Cyfradd yr oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu drosodd. | 7.87 | 7.84 | 7.87 | 1.39 | 5.03 | ↑ | ↑ |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | SCA/002a | Cyfradd y bobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y rhoddir cymorth idydnt yn y gymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawth. | 107.64 | 60.47 | 60 | 49.72 | 78.6 | ↓ | ↓ |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | SCA/002b | Cyfradd y bobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth. | 28.47 | 26.72 | 25 | 24.9 | 21.35 | ↓ | ↑ |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | SCC/002 | Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a chanddynt brofiad o symud ysgol unwaith neu ragor, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, ac nad oedd y symud hwnnw oherwydd trefniadau trosiannol, yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth. | 22.81% | 19.47% | 20% | 14.10% | 12.19% | ↑ | ↓ |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | SCC/037 | Cyfartaledd y sgôr pwyntiau mewn cysylltiad â chymwysterau allanol plant 16 oed sy'n derbyn gofal mewn unrhywsefyllfa | 128.5 | 188.4 | Dangosydd Cenedlaethol | 314 | 193.14 | ↑ | ↓ |

| Maes Gwasanaeth | Cyfeirnod | Dangosyddion | Perfformiad 2009/10 | Perfformiad 2010/11 | Targed 2011/12 | Perfformiad 2011/12 | Cyfartaledd Cymru 2011/12 | Tuedd Perfformiad | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ddysgu a gynhelir gan awdurdod lleol. | | | | | | | |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | SCC/033a | Canran y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy a hwythau'n 19 oed. | 90% | 100% | 100% | 91.70% | 92.58% | ↓ | ↓ |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | SCC/033b | Canran y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy, ac y gwyddys eu bod mewn llety addas, nad yw'n llety argyfwng a hwythau'n 19 oed. | 77.78% | 88.24% | 90% | 100% | 90.88% | ↑ | ↑ |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | SCC/033c | Canran y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysyllitad â hwy, ac y gwyddys eu bod yn ymgymryd ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth a hwythau'n 19 oed. | 33.33% | 47.06% | 80% | 63.60% | 52.21% | ↑ | ↑ |
| Tai | HHA/013 | Canran yr holl aelwydydd a allai fod yn ddigartref ac yr ataliwyd iddynt fod yn ddigartref am 6 mis o leiaf. | 95.17% | 87.46% | Dangosydd Cenedlaethol | 66.30% | 60.46% | ↓ | ↑ |
| Tai | PSR/002 | Y nifer o ddiwrnodau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl. | 359 | 291.11 | Dangosydd Cenedlaethol | 281.27 | 326.03 | ↑ | ↑ |

| Maes Gwasanaeth | Cyfeirnod | Dangosyddion | Perfformiad 2009/10 | Perfformiad 2010/11 | Targed 2011/12 | Perfformiad 2011/12 | Cyfartaledd Cymru 2011/12 | Tuedd Perfformiad | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tai | PLA/006 | Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran yr holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn. | 25.27% | 41.42% | 20% | 23.26% | 26.06% | ↓ | ↓ |
| Tai | PSR/004 | Canran yr anheddau sector preifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ar 1 Ebrill ac a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol. | 2.54% | 4.74% | Dangosydd Cenedlaethol | 4.32% | 4.62% | ↑ | ↑ |
| Addysg | EDU/002i | Canran yr holl ddisgyblion (gan gynnwys y rhai sydd yng ngofal awdurdod lleol); sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd. | 0.14% | 0.21% | 0.70% | 0.21% | 0.54% | ↔ | ↑ |
| Addysg | EDU/002ii | Canran y disgyblion sydd yng ngofal awdurdodau lleol, sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt | 12.50% | 8.30% | 8% | 0% | 3.48% | ↑ | ↑ |

| Maes Gwasanaeth | Cyfeirnod | Dangosyddion | Perfformiad 2009/10 | Perfformiad 2010/11 | Targed 2011/12 | Perfformiad 2011/12 | Cyfartaledd Cymru 2011/12 | Tuedd Perfformiad | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | gymhwyster allanol a gymeradwywyd. | | | | | | | |
| Addysg | EDU/011 | Cyfartaledd y sgôr pwyntiau ar gyfer disgyblion sy'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol. | 384 | 395 | 414 | 484 | 424.35 | ↑ | ↑ |
| Addysg | EDU/015a | Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 o wythnosau gan gynnwys eithriadau. | 73.80% | 86.70% | 60% | 90.90% | 73.31% | ↑ | ↑ |
| Addysg | EDU/015b | Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 o wythnosau heb gynnwys eithriadau. | 100% | 100% | 95% | 100% | 94.37% | ↔ | ↑ |
| Rheoli Gwastraff | WMT/009 | Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio a'i ailgylchu/neu ei ailgylchu, gan gynnwys deunyddiau biowastraff wedi eu gwahanu yn eu tarddle ac a gompostir neu a drinnir yn fiolegol mewn ffordd arall. | - | 43.97% | 48% | 46.42% | 48.53% | ↑ | ↓ |
| Rheoli Gwastraff | WMT004 | Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a anfonir i safle tirlenwi. | 57% | 54.10% | 58% | 51.84% | 44.73% | ↓ | ↑ |

| Maes Gwasanaeth | Cyfeirnod | Dangosyddion | Perfformiad 2009/10 | Perfformiad 2010/11 | Targed 2011/12 | Perfformiad 2011/12 | Cyfartaledd Cymru 2011/12 | Tuedd Perfformiad | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheoli Gwastraff | STS/006 | Canran yr achosion o dipio gwastraff yn anghyfreithlon y rhoddwyd gwybod amdanynt ac y cliriwyd y gwastraff o fewn 5 diwrnod gwaith. | 95.11% | 94.9% | 95% | 95.08% | 91.36% | ↑ | ↑ |
| Trafnidiaeth/ Priffyrdd | THS/007 | Canran yr oedolion sy'n 60 oed neu drosodd sy'n ddeiliaid tocynnau teithio rhatach ar y bws. | 73.30% | 78.37% | Dangosydd Cenedlaethol | 71.39% | 82.63% | ↓ | ↓ |
| Diwylliant a Chwaraeon | LCS/002 | Nifer yr ymweliadau gweithgarwch corfforol â chanolfannau chwaraeon a hamdden awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth. | 13596.74 | 12439.94 | 12644 | 12135.19 | 8760.86 | ↓ | ↑ |
| Diwylliant a Chwaraeon | LCL/001 | Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth. | 3750 | 5072.22 | Dangosydd Cenedlaethol | 5741.48 | 6047.57 | ↑ | ↓ |
| Effeithlonrwydd Ynni | EEF/002 | Canran y newid mewn allyriadau carbon deuocsid yn stoc adeiladau cyhoeddus annomestig. | 3.75% | 4.06% | 5.00% | 13.84% | 4.20% | ↑ | ↑ |
| Budd-daliadau Tai a Budd-daliadau'r Dreth Gyngor | BNF/004 | Yr amser a gymerir i brosesu ceisiadau newydd a rhai'n gysylltiedig ag amgylchiadau wedi newid o ran Budd-daliadau Tai a Budd-daliadau'r Dreth Gyngor. | 12.1 | 14.2 | 13 | 9.3 | | ↑ | - |